

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mehefin 2013

Rhif 434

50c

DATBLYGIAD DINISTRIOL?



MAE Stad y Penrhyn eisiau codi 69 o dai ger Maes Coetmor, Bethesda. Mae'r tir wedi ei glustnodi gan Gyngor Gwynedd er 2009 fel tir adeiladu fel rhan o Gynllun Datblygu Unedol y Cyngor. Pam, felly y daeth 150 o bobl i gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Ogwen i wrthwynebu'r datblygiad? Gofynnodd y Llais i Dr. John Llywelyn Williams, sy'n cynrychioli Pwyllgor Gwarchod Coetmor, esbonio beth sy'n eu pryderu. Cewch ddarllen ei eiriau ar dudalen tri.

Pryderon Cynghorydd

Mae tir Maes Coetmor yn Ward Ogwen, ac Ann Williams ydy'r cynghorydd sy'n cynrychioli'r ward ar y Cyngor Sir. Mae hithau'n gwrthwynebu'r datblygiad o 69 tŷ, gyda 20 o'r rheiny yn rhai fforddiadwy, ar gyfer pobl leol, a'r gweddill ar gyfer marchnad agored fasnachol. "Yn syml, mae'r cynllun yn cynnwys gormod o dai, ac mi allai gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal, gan y byddai'n debygol mai pobl o'r tu allan fydd yn prynu'r rhan fwyaf ohonyn nhw," meddai. "Rydw i hefyd yn poeni am y ffyrdd sy'n arwain at y safle – maen nhw mor gul a dydyn nhw ddim wedi eu creu i ymdopi efo'r traffig ychwanegol fydd yn cael ei gynhyrchu," ychwanegodd. "Mae 'na ddigon o broblemau wedi bod efo cyffordd Bryn Bella a Lôn Bethania dros y blynnyddoedd. Sut bydd pethau efo 69 o dai ychwanegol? Be' tasai yna ddau gar ymhob tŷ? Dyna i chi bron i 140 o geir ychwanegol."

Parhad ar dudalen 3

Urdd-erchog!

Llongyfarchiadau calonnog i Marteg Dafydd, Pentir ar ennill cystadleuaeth yr Unawd Telyn dan 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Marteg, sy'n ddeg oed, ennill y gystadleuaeth. Drwy wneud hynny mae'n dilyn yn ôl troed ei chwaer, Glain, a enillodd yr un gystadleuaeth yn ôl yn 2002 a 2003.

Yn y llun fe welwch Marteg gyda'r tlws a enillodd, sef Tlws Coffa George E. Morris.



Cafodd nifer o blant a phobl ifanc eraill y Dyffryn lwyddiant yn yr Eisteddfod, a gafodd ei chynnal ym mhentref Boncath yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Cewch ragor o wybodaeth am eu llwyddiannau ar dudalennau'r Llais.

**Lluniau o Sioe
Amaethyddol
Dyffryn Ogwen 2013
ar dudalen 14**

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

- Derfel Roberts**
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts**
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn**
dewision@btinternet.com
- Fiona Cadwaladr Owen**
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk
- Siân Esmor Rees**
sian_esmor@btinternet.com
- Neville Hughes**
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**
trystanrp1@gmail.com
- Walter W Williams**
waltermenai@yahoo.co.uk

- SWYDDOGION**
Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com
- Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

- Golygwyd y Llais y mis hwn gan Siân Esmor Rees.
- Golygydd mis Gorffennaf fydd Dewi A. Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, LL57 3DT. 01248 602440. dewimorgan@live.co.uk
- Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 3 Gorffennaf os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 18 Gorffennaf, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.
- Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**

DYDDIADUR Y DYFFRYN

- Mis Mehefin**
22 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
25 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
26 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30
29 Te Mefus yn Ysgoldy Eglwys Maes y Groes, Talybont, am 3.00
29 Bore Coffi Gŵyl Afon Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- Mis Gorffennaf**
04 Sefydliad y Merched Carneddi. Gwibdaith Addysgiadol.
06 Bore Coffi Plaid Lafur. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
10 Te Mefus yn Festri Bethlehem, Talybont, am 7.00
13 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracey Smith. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
13 Garddwest. Gardd Ficerdy Pentir 1.00 – 4.00 y prynhawn.
20 Bore Coffi Ysgol Sul Capel Jerusalem. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
24 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Mis Mehefin**
£30.00 (65) Dilys Williams, d/o Bryn Awel, Talybont.
£20.00 (52) Barbara Jones, 1 Dolhelyg, Talybont.
£10.00 (27) Glyn Davies, 8 Talychae, Tregarth
£5.00 (54) Iris Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygái

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

- £18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd


- Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

- Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan**
Cysodwyd gan Tasg, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk
Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Rhoddion i'r Llais

- £ 25.00 Mrs Ann T Davies, Tal-y-cae, Tregarth, er cof am ei brawd, Trefor Hughes.
- £ 20.00 Er cof am y diweddar Mr Stan Edwards, 'Encil' 3 Ffordd Coedmor, Bethesda, gan Dilys, Gareth a Beryl.
- £ 5.00 Mrs Llewela O'Brien er cof annwyl am ei mam, Mrs Catherine Mary Thomas (22 Maes Ogwen, Tregarth gynt) a fu farw ar 4 Mehefin 1978 ac a fuasai yn 96 oed ar 17 Mehefin.
- £ 10.00 Er cof am O R Jones, 11 Tan-y-bwlch, Rachub. Mae'n 10 mlynedd ers colli Dic, ac fe fuasai'n 85 mlwydd oed y mis hwn. Mae Betty a'r teulu yn dal mewn hiraeth.
- £ 25.00 Er cof am Ernest Sullivan, Glan Ogwen, gan y teulu.
- £ 5.00 Di-enw, Talybont

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar Dâp

- Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
- Gareth Llwyd** ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Llys Dafydd

- Os am gynnal digwyddiad yn yr awyr agored ym Methesda, mae Llys Dafydd yn lle delfrydol. Braf yw gweld y farchnad wedi dychwelyd i'r safle wedi misoedd y gaeaf ac mae'n lle gwych i gwrdd â ffrind dros baned ac edmygu a phrynu bwyd a chrefftau lleol.
- Dros yr haf, bydd mainc newydd yn cael ei gosod ar y safle - lle braf i roi eich traed i fyny ac edrych ar yr amrywiol blanhigion sydd wedi eu plannu yno.
- Bydd Gŵyl Afon Ogwen a Charnifal Ogwen yn defnyddio'r safle ddiwedd yr haf ac fe hoffai Pwyllgor Llys Dafydd annog mwy o gymdeithasau yn y gymuned i wneud defnydd o'r adnodd arbennig yma ynghanol y Stryd Fawr.
- Mae nifer yn gofyn "beth sydd yn digwydd ar y safle?" Chi'r gymuned biau Llys Dafydd a chi ddylai benderfynu beth sydd yn digwydd yno! Felly cerwch ati efo'ch ffrindiau i drefnu rhywbeth arbennig! Os am drefnu digwyddiad, cysylltwch gyda Caren ar 602509.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Llythyrau

Annwyl Olygydd

Am ei bod hi'n 40 mlynedd eleni ers i rai ohonom fentro drwy ddrysau Ysgol Dyffryn Ogwen, mae aduniad yn cael ei drefnu i gyn – ddisgyblion y flwyddyn honno – Medi 1973. Trefnir yr aduniad yn y Clwb Rygbi yn Bethesda, nos Sadwrn, Medi 21ain 2013. Mae rhai wedi cael gwybod eisoes ond nid oes gennyf gyswllt â phob un, credaf bod oddeutu 80+ wedi cychwyn y flwyddyn honno. Er mwyn trefnu lluniaeth ac ati hoffwn gael gwybod pwy sy'n mynychu erbyn Medi'r 1af 2013 un ai drwy e-bost: aduniadydo1973@gmail.com, drwy'r post i 9 Rhes Buddug, Bethesda neu ymaelodi gyda'r grŵp <https://www.facebook.com/events/557801950931950/> ar y Gwynebylfr.

Gyda diolch,

Medwyn Williams

Annwyl Olygydd,

Rali Ffermwyr Ifanc Eryri Coed Hywel, Hoffai swyddogion Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri ddiolch o galon i deulu Coed Hywel, Glasinfryn; aelodau a chyn aelodau clwb Dyffryn Ogwen, a holl gyfeillion y clwb am bob cymorth a chefnogaeth a roddwyd i ni fel Mudiad dros y misoedd diwethaf i drefnu Rali 2013. Cafwyd diwrnod llwyddiannus dros ben a'r haul yn tywynnu. Diolch i bawb wnaeth gynorthwyo i feirniadu, stiwardio a chadw trefn yn ystod y dydd a'r nos. Diolch hefyd i brif noddwyr y Rali sef Arwel Edwards, Pandi Motors, J Temple Morris and Son, NFU Canolbarth Gwynedd, ac i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y Rali neu'r Erwau. Heb eich cymorth chi i gyd fyddai trefnu'r diwrnod yn anodd iawn.

Diolch yn fawr iawn.

Eleri Evans

Trefnydd Ffermwyr Ifanc Eryri

Datblygiad Dinistriol?

(O'r dudalen flaen).

Dywedodd Ann Williams ei bod wedi derbyn nifer fawr o gwynion am y system garthffosiaeth. "Mae'r system garthffosiaeth eisoes yn creu problemau, ac rydw i'n hynod bryderus y bydd y tai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol annerbyniol arni hi. Mae problem traeniad cyffredinol yn ardal y datblygiad arfaethedig yn achosi llawer o broblemau llifogydd ar yr A5 a thai ar ei hymyl ar hyn o bryd."

Pryder arall yw y byddai'r datblygiad yn dwyn tir glas amaethyddol da, pan fo nifer o safleoedd llwyd ar gael yn ardal Bethesda y byddai'n bosib' adeiladu amyn nhw. Ond, gyda'r tir yng Nghoetmor eisoes wedi ei neilltuo ar gyfer adeiladu tai, ydy hi'n rhy hwyr i rwystro'r datblygiad?

Dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor Gwynedd eu bod yn asesu pob cais cynllunio ar ei haeddiant, gan ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill. "Mae'r safle sydd yn berthnasol i'r cais yma wedi ei ddynodi ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Unedol, ac felly mae'r egwyddor ar gyfer datblygu tai ar y safle wedi ei sefydlu," meddai.

"Mae nifer o ystyriaethau cynllunio yn berthnasol i'r cais, a bydd yr holl faterion yma yn cael eu hystyried pan fydd y cais yn cael ei benderfynu gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor."

Pwy fydd yn penderfynu?

Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd fydd yn trafod y cais cynllunio. Pymtheg cynghorydd sydd ar y pwyllgor, ac mae tri ohonyn nhw'n cynrychioli Dyffryn Ogwen, sef Dafydd Meurig (Arlechwedd), Dyfrig Jones (Gerlan) a Gwen Griffiths (Tregarth). Os ydyn nhw'n eich cynrychioli chi ar y Cyngor, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod iddyn nhw os ydych chithau'n gwrthwynebu'r datblygiad.

Mae modd i chi hefyd wrthwynebu'r cais yn swyddogol, drwy anfon cwyn uniongyrchol i Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd.

Dweud eich dweud

Mae'r Cyngor yn barod iawn i wahodd sylwadau gan y cyhoedd am y datblygiad, felly os oes gennych chi sylw i'w wneud am y cais, cysylltwch â'r Adran Gynllunio i ddweud hynny. Y ffordd hawsaf o wneud sylw ydy drwy fynd i wefan y Cyngor. Dyma'r ddolen: <http://www.gwynedd.gov.uk/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2> Rhif y cais cynllunio ydy C13/0412/13/AM. Teipiwch y rhif hwn yn y blwch cyntaf er mwyn cael darllen y cais. Mae dolen yno hefyd i chi glicio arni er mwyn mynegi eich barn, sef dolen 'Gwneud sylw ar y cais hwn'.

Ymgyrch Gwarchod Maes Coetmor

Pam fod yn rhaid gwrthwynebu cynllun Stad y Penrhyn (RCH Douglas Pennant o Gyprus) i adeiladu stad o dai ger Maes Coetmor?

Dyma rai o'r prif resymau.

Ni all isadeiledd pentref Bethesda gynnal y datblygiad. Ni all y rhwydwaith ffyrdd presennol dderbyn llif ychwanegol traffig y safle, yn arbennig ar Ffordd Coetmor, Ffordd Newydd Coetmor, Ffordd Llwyn Bleddyn a chroesfannau peryglus Bryn Bella a Chapel Bethania at yr A5.

Bydd y cynllun yn creu perygl llifogydd i'r tai sydd rhwng Ffordd Bangor, Llain y Pebyll a thu draw. Mae cynllun i ddal dŵr wyneb y safle mewn llyn artiffisial fydd yn bwydo dŵr i ffos agored Cae Gas yn gwbl annerbyniol. Eisoes mae'r ffos hon yn creu llifogydd ar ffordd yr A5 megis ym mis Tachwedd 2012 a mis Mawrth eleni.

Nid yw'r cynllun yn cyfrannu dim at gynnal a chryfhau adeiledd cynaliadwy pentref Bethesda. Mae'r cynllun yn anghydnaws â dyluniad gweddill y pentref ac mae'n defnyddio tir glas agored ar fferm Coetmor gan gyfrannu at danseilio bywoliaeth Dafydd Jones. Mae oddeutu 17 hectar o dir brown o fewn ffin datblygu Bethesda ac mewn safleoedd y gellir ac y dylid adeiladu arnynt.

Nid yw'r cynllun yn ateb gofynion lleol am dai ym Methesda. Oes, mae eisiau tai ym Methesda, cymysgedd o dai fforddiadwy, tai preifat a byngalos wedi eu cynllunio mewn stadau bychan a fydd yn plethu'n rhwydd i fframwaith ein pentref. Ni fydd y datblygiad yn cyfrannu dim i gryfhau cynllun ac economi pentref Bethesda oherwydd lluniwyd y datblygiad yn bennaf ar gyfer bwydo i Fangor, yr A55 a'r dwyrain.

Fe wnaiff y cynllun danseilio iaith a diwylliant ein pentref sydd yn un o gymunedau Cymreiciaf Cymru, gyda 70.5% yn siarad Cymraeg yn y Cyfrifiad diwethaf ac fe ddylai ceisiadau cynllunio barchu, gwarchod a hyrwyddo treftadaeth ieithyddol a chymdeithasol ein bro yn unol ag egwyddorion a pholisïau Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

**John Llywelyn Williams,
Pwyllgor Gwarchod Coetmor**



Llun o'r llifogydd ar Ffordd Bangor – drwy garedigrwydd Jo Roberts.



O 'Tŷ Chi'

Rywle yn Rhiwlas mae 'Tŷ Chi'. Llawer o ddiolch am wthio'r cwch i'r dŵr! Dyma ddau limrig fydd yn yn sicr o wneud i chi wenu.

"Mae 'na feirdd yn y dyffryn 'blaw fi'
Medda' Ieu, 'ma' 'na ddau, os nad tri"
"Felly, be am limrig neu ddwy
Neu dair - ella mwy ??
Cysylltwch â Tŷ Ni, Tŷ Chi".

Yn y capal ers talwm yn Sling
Fe ganai John Ogwan fel Bing
Rwbath rhwng bäs a tenor
Oedd Gwynfor ab Ifor
A fi ?? - wel ai jest cwdn't sing.

Diolch yn fawr iawn i "Annhysbys" am ei gyfraniad hwyliog.

Mae croeso i blant anfon cyfraniad i 'Tŷ Chi' wrth gwrs neu beth am lun diddorol? Cysylltwch â jan@erwlas.freemove.co.uk, neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd. LL57 3NN gan gofio rhoi enw a chyfeiriad "Tŷ Chi".

O 'Tŷ Ni'

'Roeddwn yn mynd am dro (un o deithiau hyfryd Arwyn Oliver) y dydd o'r blaen a gwelais aderyn gyda gwllan llond ei big. Cofiais am Taid yn dweud wrthyf wrth gasglu gwllan ar ddiwrnod cneifio, "Cwyd ti'r gwllan mân, ac fe gwyd y gwllan mân tithau". Da ynte. Ie, prin y bydd diarhebion i'w clywed y dyddiau hyn. Dw i wrth fy modd gyda dihareb dda. Sylw cryno, bachog sy'n gallu bod yn ddoniol yn ogystal â doeth. Beth am y ddwy yma - "Achub croen chwannen a cholli croen buwch" a "Haws dywedyd mawr na gwneuthur bychan" Buaswn wrth fy modd yn clywed hoff ddihareb Tŷ Chi. Cofiwch gysylltu.

Dyma englyn sy'n dweud y cyfan. Mae'n rhaid cyfaddef na wn i ddim oll am y bardd Mordaf. Unrhyw wybodaeth gan ddarllenwyr y Llais?

Dihareb

Dihareb, adnod y werin - ei swyn
Yw synnwyr cyffredin;
Mewn gwlad a thref cynefin
Ei gwir praff a'i geiriau prin.

Mordaf

Bethesda

Liên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐☎ **601902**

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau mawr i Eleanor Jones, Bryn Caseg, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Mai. Hoffai Eleanor ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, blodau, arian, anrhegion, a'r holl alwadau ffôn a dderbyniodd ar yr achlysur arbennig hwn. Diolch yn arbennig i Richard a'r plant am drefnu parti bach mewn bwyty Eidalaidd ar y diwrnod mawr.

Noson Bryn Fôn
Cynhaliwyd noson hynod o lwyddiannus gyda Bryn Fôn ar 1 Mehefin yn y Clwb Criced a Bowlio, Bethesda, tuag at Apêl Eleanor Jones. Roedd y clwb dan ei sang, a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr, yn enwedig Eleanor ei hun, a oedd wedi dathlu ei phen-blwydd arbennig ychydig ynghynt.



Hoffai Eleanor, Richard, a'r teulu ddiolch o galon i Bryn Fôn a'r band am roi noson ardderchog a bythgofiadwy i bawb oedd yn bresennol. Diolch, hefyd, i'r holl ardal, teulu, ffrindiau, cydweithwyr, ac, hefyd, i staff Ward Alaw am eu presenoldeb a'u cefnogaeth.

Diolch mawr iawn i'r Pwyllgor Apêl am eu gwaith cyson, diflino a'u cefnogaeth i'r teulu a'r Apêl bob amser. Oherwydd eu cymorth hwy y mae Eleanor yn gallu codi'r arian tuag at yr offer hollbwysig ac angenrheidiol i Ward Alaw.

Diolch, hefyd, i Glwb Criced a Bowlio Bethesda am gael defnyddio'r Clwb i gynnal y gweithgareddau, a diolch arbennig i'r staff a oedd yn brysur iawn y tu ôl i'r bar.

Cartref Newydd
Croeso cynnes iawn i Mrs Daisy Jones i'w chartref newydd yn 1 Maes y Garnedd.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Dei a June Jones, Rhoslan, Ffordd Bangor, ar ddod yn daid a nain, ac i Noreen Jones, Adwy'r Nant ar ddod yn hen nain, ar enedigaeth Eila Rees, merch i Iona a Geraint yn Waunfawr.

Priodas



Llongyfarchiadau i Adam Scott-Jones, Glanogwen, a Sioned Môn Jones, Glanrafon, Cefniwrch, Llangejni ar eu priodas ar 27 Ebrill yn Eglwys Cyngar Sant, Llangejni. Hoffai Sioned ac Adam ddiolch o waelod calon am yr holl anrhegion a dymuniadau da y maent wedi eu derbyn.

Diolch
Dymuna Andrew Lomozik a Hannah ddiolch i bawb am y dymuniadau gorau, cardiau ac anrhegion a gawsant ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Damwain
Tra'n siopa ym Mangor cafodd Mr Gareth Jones, Pant Glas, ddamwain a thorri ei asennau. Gobeithio dy fod yn gwella erbyn hyn Gareth.

Pen-blwydd
Dathlodd Mr John Hughes, Bontuchaf, ben-blwydd arbennig ddechrau'r mis. Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus.

Ysbyty
Cofion cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.
Mr Tudor Roberts, Abercaseg;
Mrs Rosie Owen, Pant Glas;
Mrs Eirlys Jones, Pen-y-bryn;
Mr Geraint Edwards, Pen-y-bryn;
Mrs Jean Ogwen Jones, Coetmor;
Miss Bethan Jones,
Rhes Penrhyn;
Miss Nancy Jones, Erw Las.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Mr a Mrs Ian Hughes a'r teulu, Rhes Gordon. Collodd Ian ei frawd, Mr William Hugh Hughes, yn 67 oed.

Mr a Mrs Elfed Bullock a'r teulu, Maesygarredd. Collodd Rita ei modryb.

Mrs Doreen Jones a'r teulu, Stryd Fawr. Collodd Doreen ei thad ar 23 Mai, sef y diweddar Mr John Richard Griffith a oedd yn 98 oed.

Cydymdeimwn â Llew ac Alison, Tŷ'n Llan, Pant Glas ar golli nain i Llew, sef y ddiweddar Mrs Gwenllian Tudur Jones, Bangor. Hefyd collodd Alison ewythr yn Lloegr.

Gorffwysfan, Stryd Fawr
Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn fore Sadwrn, 25 Mehefin, gydag elw o dros £300.00. Diolch i'r aelodau am eu cefnogaeth gyda nwyddau a gwobrau. Diolch i Vernon a Dafydd am gasglu gwobrau ardderchog gan fusnesau'r Stryd Fawr. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd am eich haelioni.

Cofiwch am y wibdaith ddydd Mercher, 26 Mehefin i'r Bala, Dolgellau a'r Bermo. Cychwyn o Dregarth 8.10 y bore, Rachub 8.20, Bethania 8.25, Glanffrydlas 8.30, Adwy'r Nant 8.35.

Marwolaethau
Ar 2 Mai yng nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli bu farw Mrs Gwennie Griffiths, 5 Rhes Douglas yn 85 oed. Priod y diweddar Mr Llewelyn Griffiths, mam a mam yng nghyfraith Alan a Llynwen, a nain hoffus Alwen Haf a Richard Aled a chwaer Alun. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher, 8 Mai, gyda gwasanaeth yng Nghapel Bethania a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Gwynfor Williams gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Yn ysbyty Gwynedd ar 4 Mai, wedi salwch hir, bu farw Mr Stanley Edwards, Encil, 3 Ffordd Coetmor yn 88 oed. Priod annwyl Mrs Dilys Edwards a thad gofalus i Gareth a'i gyman, Beryl. Person tawel, bonheddig a hoffus oedd Stan. Bu'n chwarae pêl-droed i sawl clwb pan oedd yn ifanc. Roedd yn mynychu Gorffwysfan bob dydd am sgwrs gyda'r hogiau. Roedd yn aelod o Gapel Carmel, Llanllechid ac yno y cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener 10 Mai ac wedyn ym mynwent Coetmor.

Gwasanaethwyd gan ei weinidog, y Parchedig Geraint S. R. Hughes. Darllenodd Mary Jones deyrnged a ysgrifenyddwyd gan Gareth. Mrs Helen Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi Dilys, Gareth a Beryl a'r teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli Stan.

Diolch
Dymuna Dilys, Gareth, Beryl a theulu'r diweddar Stan Edwards, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli gŵr a thad annwyl. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a fu'n gysur mawr. Gwerthfawrogi'r swm o £750 a dderbyniwyd tuag at Gartref Plas Ogwen er cof am Stan. Hoffem ddiolch yn arbennig

i'r staff ym Mhlas Ogwen am eu gofal diflino a'u caredigrwydd tuag ato yn ystod eu fisoedd olaf a hefyd i ninnau fel teulu ar ein hymweliadau â'r cartref. Diolch i'r Parchedig Geraint Hughes a'r organyddes, Mrs Helen Wyn Williams am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd, ac i Mary Jones am ddarllen y deyrnged mor deimladwy. Diolch hefyd i'r ymgymrwyr, Gareth Williams, am ei drefniadau trylwyr ac urddasol.

Cydymdeimlo
Ar 5 Mai 2013 yn Ysbyty Glan Clwyd, bu farw Mrs Myfanwy Morgan, gynt o 52 Glan Ogwen, yn 86 oed. Priod y diweddar Cecil Morgan, mam a mam yng nghyfraith David a Menna, Peter a Maddie, nain hoffus Dyfed, Rhodri, Siân, Catrin, Elin, Alys a Nia a hen-nain i Noah. Gwraig hoffus a charedig ydoedd ac aelod selog o Eglwys Crist, Glanogwen. Yno y cynhaliwyd y gwasanaeth, ddydd ei hangladd, ac wedyn ym mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews, gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Profedigaeth
Ar 6 Mai, o ganlyniad i ddamwain, bu farw Mr David Wyn Williams, 16 Stad Coetmor, yn 52 oed. Priod annwyl Mrs Sandra Williams a thad caredig a hoffus i Darren a Sara a brawd annwyl i Alan, Sandra a Rhian, a mab y diweddar Mr a Mrs Gwylfa ac Eirlys Williams, Stryd Cefnfaes. Roedd yn gweithio yn Chwael y Penrhyn ac yn uchel ei barch gan ei gydweithwyr. Cynhaliwyd gwasanaeth dydd ei angladd yng Nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor ar ddydd Mawrth, 14 Mai. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Geraint Hughes a chafwyd teyrnged gan Mr Barry Jones a chfan gan aelodau o'r grŵp Celt. Mrs Minnie Lewis oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled fawr.

Marwolaeth
Yn Ysbyty Gwynedd ar 28 Mai, bu farw Mr Tecwyn Percival Jones, 49 Glanogwen, yn 82 oed. Brawd a brawd yng nghyfraith i Eric ac Elizabeth, Alan a Jessie, Gwynfor a Nerys, Percy a Lilian a'r ddiweddar Beryl; brawd yng nghyfraith Derek a'r ddiweddar Siân.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor ddydd Llun 3 Mehefin, gyda'r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Ymadawiad
Ar 30 Mai yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr David Evans, Tan Dderwen, Coed y Parc, yn 86 oed. Priod cariadus Mrs Lilian Evans, tad a thad yng nghyfraith Siân a Derwyn a thaid Elin Lois. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor ddydd Iau, 6 Mehefin dan arweiniad y Parchedig

Ddr Hugh John Hughes. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Mewn cartref ym Mae Trearddur ar 2 Mehefin, bu farw Mr Charles David Williams, gynt o 6 Maes Merddyn, Gaerwen yn 91 oed. Ewythr hoffus i Margaret, David a Jean. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 7 Mehefin, gyda gwasanaeth a chladdu yn Eglwys Crist, Glanogwen dan arweiniad y Barchedig Jennifer Hood. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

Diolch
Dymuna Vera, Vivien ac Amanda a theulu'r diweddar Percy Parry, Erw Las, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Percy. Diolch am y cyfraniadau tuag at Tŷ Gobaith. Diolch i'r Parchedig Wynne Roberts am arwain y gwasanaeth a'r Parchedig Elwyn Jones am ei deyrnged. Yr un yw'r diolchiadau i Arwel Hughes am ei drefniadau trylwyr.

Diolch
Dymuna Mair, Alan, David, Shirley a Lynne, teulu'r diweddar Ernie Sullivan ddiolch am bob cydymdeimlad, galwad ffôn, cerdyn ac ymweliad ac am y rhoddion hael at Tŷ Gobaith. Diolchir i'r Parch John Matthews am ei wasanaeth, i Christine Edwards ar yr organ ac i'r ymgymerwr, Gareth Williams, am ei drefniadau trylwyr.

Yr Eglwys Unedig Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Daeth mis Mai i mewn dan heulwen deg:
'Gwn ei ddyfod fis y mêl
Gyda'i firi yn yr helyg,
Gyda'i flodau fel y barrug
Gwyn fy mynd bob tro y dêl,'

a hyderwn y bydd llawer yn gwella yn sgil hynny.
Gweddiwn dros bawb sydd dan gysgod gwaeledd, unigrwydd, hiraeth neu unrhyw anhwylder. Dymunwn wellhad buan iddynt a bendith arnynt. Cofiwn hefyd am y rhai sy'n gofidio am eu hanwyliaid sydd yn wael. Anfonwn ein cofion cywiraf atynt oll.

Ar Fai'r 4ydd, cynhaliwyd Bore Coffi Cymorth Cristnogol a gwnaethpwyd elw o £405.75. Mawr yw ein diolch am bob cefnogaeth.

Ar y 9fed, bu Cymdeithas y Chwiorydd ar daith i Nant Gwrtheyrn a drefnwyd gan Heulwen a Minnie. Cawsom hanes 'Y Nant' o'r dechreuad hyd y presennol gan Catherine Tudor Jones, y Swyddog Treftadaeth ac yna swper blasus.

Dechreuodd Wythnos Cymorth Cristnogol ar y 12fed a

chynhaliwyd gwasanaeth hwyrol yn Eglwys Crist Glan Ogwen gyda Rhiannon Efans yn cynrychioli'r Eglwys Unedig. Diolch, Rhiannon.

Yr Ysgol Sul.
Mali a Thomas oedd yn ledio emyn y plant y mis hwn. Ar ddau Sul olaf y mis bu'r plant yn sefyll Arholiad Llafar, ac edrychwn ymlaen at Sul y gwobrwyo.

Noson Goffi
Ar y 24ain, cynhaliwyd Noson Goffi yn y festri dan nawdd y Clwb Celf i godi arian at Apêl Eleanor ac Ambiwylans Awyr Cymru. Gwnaethpwyd elw o £300.85, a diolchwn i bawb am lwyddiant y noson.

Fel eglwys, cydymdeimlwn â'r Fns. Rita Bullock, sydd wedi colli ei modryb. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Llongyfarchiadau i Ieuan a Blodeuwedd Wyn ar ddod yn daid a nain unwaith eto, i fachgen bach o'r enw Lewis Gruffudd. Mwy o waith gwarchod!!

Adnod y mis (yng nghyd-destun Wythnos Cymorth Cristnogol)
“Yn wir rwy’n dweud wrthyh, yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o’r lleiaf o’r rhain, i mi y gwnaethoch.” Mathew 25 adn 40.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

Oedfaon y Sul
am 10.00 ac am 5.00

23 Mehefin
Y Parchedig Emlyn Richards
30 Mehefin
Y Br. Gwilym Williams.

Croeso Cynnes i Bawb

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

‘LLENWIR CWPAN’

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o’r gloch a hanner dydd

CAPEL BETHANIA

Cynhelir oedfaon ar y Sul cyntaf a'r trydydd o'r mis am 5.30

Gorffennaf:
07 Y Parchedig Reuben Roberts
21 Y Parchedig Gwynfor Williams

Croeso Cynnes i Bawb

Eglwys Unedig Jerusalem, Bethesda Y Clwb Nos Fawrth

Ers dechrau'r flwyddyn rydym wedi bod yn trefnu casglu nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon.Hoffem ddiolch i aelodau a chyfeillion y capel am fod mor hael.



Rydym eisoes wedi anfon 50 kg o fwyd a dyma ni efo'r ail gasgliad yn barod i fynd i'w ddosbarthu ymysg pobl mewn angen.

Y Clwb Celf

Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus yn y festri yn ddiweddar. Roedd holl elw'r noson yn mynd at apêl yr Ambiwylans Awyr a Chronfa Eleanor.



Dyma enghraifft o'r gwaith y mae'r clwb yn ei weu er budd yr Ambiwylans Awyr.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar noson braf iawn, y chweched o Fehefin, fe roddodd ein llywydd, Gwyneth Morris, groeso cynnes i bawb. Yr haf wedi dod, gobeithio ynte !! Roedd dwy o'r aelodau wedi dathlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar, Sef Betty Jones a Violet Williams. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod da gyda'r teulu.

Ar nodyn trist, cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Myfi Morgan. Bu'n aelod ffyddlon ers blynnyddoedd. Roedd yn berson distaw a siriol bob amser a bydd colled fawr ar ei hôl. Yr un modd, cydymdeimlwyd â Rita Bullock, oedd wedi colli modryb a chefnder o fewn ychydig ddyddiau. Fel arwydd o barch cawsom funud o dawelwch er cof. Ein cofion dwysaf atoch.

Darllenwyd y llythyr misol gan Gwyneth a'r cofnodion gan Jean. Aeth Gwyneth ymlaen i estyn croeso i'r gŵr gwadd am y noson, sef Huw Davies, sy'n gweithio efo Antur Waunfawr, a Gwenlli, sydd newydd ymuno â'r antur. Brodor o Dregarth yw Huw, ond yn awr yn byw yn Tŷ Dŵr, Gerlan, ers llawer o flynyddoedd. Mae'n gweithio gyda'r Antur ers 18 mlynedd ac wrth ei fodd gyda'r gwaith. Mae'r Antur yn rhoi gwahanol fathau o gyfleoedd i bobl dan anabledd.

Gwynn Davies a sefydlodd yr Antur 30 mlynedd yn ôl, ac mae'n dal i ffynnu. Mae'r Antur yn cynnwys caffi, adran ailgylchu ac adran grefftau o bob math. Hefyd, mae gwasanaeth 24 awr i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi. Cawsom sleidiau yn dangos yr amryw weithgareddau y mae'r Antur yn eu cynnig. Roedd yn noson dda iawn!

Diolchwyd i Huw a Gwenlli gan Gwyneth, ac i'r merched am y baned. Enillydd y raffl, a roddwyd gan Margaret Owen, oedd Ettie.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis: Gwasanaeth Holl Deulu Duw 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis: Cymun Bendigaidd Cymraeg 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis: Cymun Bendigaidd dwyieithog 11.00am
Pumed Sul: Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandygai a Pentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Ni chynhelir y Gwasanaeth Cymun am 8.00am ar y Sul ar hyn o bryd.

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaidd

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad llwyr a buan i chwi i gyd.

Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.

Arch Noa

Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae’n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Llun am 9.15am.

Bore Coffi

Cynhelir ein Bore Coffi nesaf fore Sadwrn, Mehefin 22, yn Neuadd Ogwen o 10.00am hyd 12.00pm.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Cofion

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at y Cynghorydd Pearl Evans, sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty ym Manceinion dros yr wythnosau diwethaf. Hefyd at Gaynor Williams, Maes Bleddyn, sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei hysgwydd.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Vernon Davies, Awelon, Yr Ynys, Rachub ac at y teulu oll yn eu profedigaeth o golli Iris Davies, mam, nain a hen nain annwyl, ar 26 Mai 2013 yn 87 oed. Roedd Iris yn un o gymeriadau’r ardal a bu’n dioddef yn ddewr am rai blynyddoedd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Maes y Groes, Talybont ar ddiwrnod olaf mis Mai.

Pen-blwydd Hapus

Bu dathlu mawr ar fferm Bryn Owen ar 2 Mehefin 2013. Dymunwn ben-blwydd hapus hwyr i Betty Williams yn 80 mlwydd oed. Dathlu hefyd mae Gareth Hughes, Ffordd Llanllechid, ac yntau’n hanner cant ar 20 Mehefin 2013.

CANOLFAN RACHUB

Ar gael ar gyfer cyfarfodydd a gweithgaredd o bob math

PRISIAU LLOGI

£10.00 am sesiwn hyd at 4 awr
£15.00 – Partïon neu benwythnosau

Cysylltwch â Godfrey Northam (600872) am ddyddiadau rhydd

Llongyfarchiadau

i Ron a Wendy, Bron Arfon, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Rhiannon yn ferch i Amy a Tom yng Nghaerdydd, ac yn chwaer i Siôn.

Diolch

Mae rhai misoedd bellach ers i Leon Williams, Maes Bleddyn, gael ei daro’n wael gan afieichyd FSGS, sy’n effeithio ar yr arennau. Mae Leon, sy’n 7 oed, wedi ail-afael yn ei addysg ac yn mynychu Ysgol Llanllechid, er ei fod ar hyn o bryd yn wynebu taith wythnosol i ysbyty yn Lerpwl am brofion. Y gobaith yn y pen draw yw y bydd Leon yn cael trawsblaniad. Mae’r teulu wedi wynebu amser caled a dymunant ddiolch am gefnogaeth yr holl gymuned ac i holl staff Ysgol Llanllechid am eu cymorth parod. Dymuniadau gorau Leon.

Cydymdeimlad

Wrth i’r Llais fynd i’r wasg clywsom am farwolaeth Wyn Davies, Bronnydd. Pob cydymdeimlad i’w deulu yn eu profedigaeth.

TAITH GERDDED
FLYNYDDOL

Gorffennaf 20 yw dyddiad y daith gerdded flynyddol a drefnir gan Ann a Raymond Tugwell i gasglu arian at achosion da. Bydd elw eleni yn mynd at C.L.I.C Canser a Lewcemia mewn plentynod a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd er cof am Janet Moore.

Bydd bws yn mynd â’r cerddwyr o Fethesda i Lyn Ogwen a darperir picnic am ddim i’r cerddwyr. Os am ymuno â ni, cysylltwch ag Ann neu Raymond ar 01248 601077, neu alw heibio am ffurflen noddi.

CAPEL BETHEL

Mehefin:

23 Y Parch Dafydd Hughes
30 Mr Dafydd Iwan

Gorffennaf:

07 Mr Alun Wyn Rowlands
14 Y Gweinidog
21 Parch Dr Dafydd Wyn Williams.
Oedfaon am 2.00

Croeso Cynnes i Bawb

Bocsio



Da cael adrodd bod Sean Carson wedi cael llwyddiant unwaith eto o fewn y cylch bocsio. Y tro yma mewn twrnament a gynhaliwyd yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd, Caernarfon, lle trechwyd Liam Knight o Gaergybi. Dyma’r tro cyntaf i’r bocsiwr o Gaergybi golli gornest. Mae Sean yn aelod o Glwb Bocsio Amatur Caernarfon.

Mae Sean wedi cael ei ddewis yn aelod o dîm Bocsio Amatur Cymru yn y grŵp 81k mewn cystadleuaeth am bencampwriaeth Prydain. Bydd yr ornest yn cael ei chynnal yn Abertawe yn ystod mis Mehefin.

Capel Carmel, Llanllechid

Bu’n fis prysur i bobl ifanc y Capel. Cynhaliwyd Cymanfa’r Ysgolion Sul, Cylch Bangor a Bethesda, yng Ngharmel ar 19 Mai. Derbyniodd y plant dystysgrif a gwobrau ariannol am eu gwaith. Roedd y bobl ifanc wedi dysgu adnodau a gwneud gwaith llaw drwy’r gaeaf a chawsant eu canmol yn fawr am eu hymdrechion. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn yr hwyr, gyda pharti o bobl ifanc Carmel yn rhoi eitemau cerddorol yn ystod y gwasanaeth. Llywydd y bore oedd Megan Tomos, gyda Huw Edward Jones yn arweinydd y gân. Yn yr hwyr, Iona Jones oedd yn llywyddu a Rhian Roberts yn arwain y gân. Bu’n ddiwrnod braf yng nghwmni’r plant a’r bobol ifanc gyda chanu hwyliog yn y ddau gyfarfod.

Clwb Dwylo Prysur

Aeth aelodau’r Clwb am dro o gwmpas yr ardal gan gerdded at Fferm Tanymarian, cartref y Parchedig Edward Stephen erstalwm, cyn weinidog Carmel rhwng 1856 ac 1885. Roedd yn enwog fel cerddor, bardd a llenor ac ef a gyfansoddodd yr emyn-dôn ‘Tanymarian’. Fe’i gwelir yn y llyfr emynau, Caneuon Ffydd, rhif y dôn 490. Cawsom groeso gan y teulu sy’n berchen y tŷ heddiw ac mae Ella a’i brawd Jake i’w gweld yn y llun

CAPEL CARMEL
Gwasanaethau

Mehefin

23 Y Gweinidog am 2.00 a 5.00
30 Y Parch Tom Evans Williams

Gorffennaf

07 Parch Geraint Roberts 5.00
14 Oedfa Deulu 10.30 y bore
14 Y Gweinidog 5.00
21 Y Parch T Roberts 5.00

Croeso Cynnes i Bawb



O Flaen Fferm Tanymarian

Aethant yn eu blaen at Gapel Bethlehem, Talybont ac yno derbyn croeso a llymaid o de gan Jean Hughes a Barbara Jones. Diolch i'r ddwy. Gwelsant fedd Edward Stephen ym mynwent y capel cyn cerdded heibio neuadd hynafol Cochwillan a chael cipolwg o bell arni.



Ger bedd Edward Stephen

Y Dosbarth Gwau
Bu'r merched yn brysur drwy'r gaeaf, ac ymhlith y cynnyrch roedd plancedi a roddwyd i drigolion Plas Ogwen. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Mrs Margaret Swift am ei rhodd o 22 o blancedi wedi eu crosio. Bydd y rhain yn cael eu gwerthu, gyda'r arian yn mynd at Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr trwy Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr i'r merched i gyd am eu gwaith.



Rhai o'r merched gyda'r plancedi.

Cylch Ti a Fi Rachub

Cynhaliwyd gweithgareddau codi arian llwyddiannus ar gyfer y Cylch yn ddiweddar. Mae'r pwyllgor am ddiolch i bawb a gymerodd ran ac a gyfrannodd at y llwyddiant.

Codwyd £150 ar daith gerdded nodedig, ac mewn noson goffi yn y ganolfan llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £240. Am fwy o wybodaeth am y Cylch cysylltwch â Keilly ar 01248 602874.

Cylch Meithrin Llanllechid



Llongyfarchiadau i'r pwyllgor, staff a phlant Cylch Meithrin Llanllechid ar dderbyn adroddiad canmoladwy iawn gan ESTYN yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a da iawn chi!

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Ymddiheuriad
Ymddiheurwn yn fawr am y camgymeriad yn enw Artie Wilson yn rhifyn diwethaf y Llais.

Profedigaeth
Cydymdeimlwn yn fawr â Mr a Mrs Gwynfor Jones a'r teulu, Llys Hedd, yn eu profedigaeth o golli brawd Gwynfor, sef Tecwyn Jones, Glanogwen, a fu'n wael ers peth amser.

Gwaeledd
Nid yw Mrs Dolores Edwards, 6 Gernant, wedi bod yn dda ers misoedd bellach, gydag anhwylder y frest. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan iddi.

Croeso
Wedi dod i ymgartrefu ym Mhlas Ogwen mae Robin Roberts. Dymuniadau Gorau iddo.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ 600965

Priodas Arian
Llongyfarchiadau i Karl a Nerys, Hendrenenig, Cilfodan, ar ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol ar 21 Mai 2013.

Pen-blwydd Arbennig
Dymuna Victor Roberts, Rhes Cilfodan, ddiolch o galon i deulu Llain am eu caredigrwydd yn trefnu taith awyren i Belfast yn anrheg pen-blwydd iddo yn 70 oed, ac am gwmni ei frawd, Michael, ar yr achlysur arbennig, a chael Morgan ac Iwan, ei wyrion, i afael yn llaw Taid i fynd ar yr awyren.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Anwen a Gruffydd Wyn (mab Ieuan a Blodeuwedd, Ffordd Carneddi), Pant Coch, Rhostryfan ar enedigaeth Lewis, brawd i Now.

Meithrinfa Ogwen, Meithrinfa Iach



Hwrê! Mae Meithrinfa Ogwen wedi ennill Gwobr Hybu Iechyd. Hi ydy'r feithrinfa gyntaf yng Ngwynedd i gael ei gwobrwyo fel aelod o'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy, cynllun sy'n hybu iechyd a glendid mewn sefydliadau plant cyn iddyn nhw fynd i'r ysgol.

I ddathlu'r llwyddiant, cynhaliodd y feithrinfa wythnos o weithgareddau iechyd a lles ddechrau Mehefin gyda'r plant a'u teuluoedd. Mi fuon nhw'n garddio, yn paratoi smwddis iach a ffyn ffrwythau, yn mwynhau amser stori gyda Ceridwen ac yn cymryd rhan yn rhaglen ymarferion hwyliog Traed Prysur.

"Mae holl staff Meithrinfa Ogwen yn frwdfrydig iawn dros hybu iechyd a lles plant ac yn annog teuluoedd i fyw bywyd iach," meddai Nia Cotcher, Ymarferydd Ysgolion a Chyn-Ysgolion Iach. "Mae dysgu arferion bwyta da ac annog plant ifanc i wneud gweithgareddau corfforol yn hollbwysig."

Roedd y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ardal ar y cynghorau sir a chymuned, Dyfrig Jones ac Ann Williams, wrth eu boddau efo'r newyddion.

"Llongyfarchiadau mawr i Feithrinfa Ogwen," meddai Dyfrig Jones, sy'n cynrychioli ward Gerlan ar Gyngor Gwynedd. "Rydyn ni'n falch iawn o'r tîm o staff sydd wedi gweithio'n galed i ymgynhyrchu'r safonau uchel yma ym maes iechyd. Mae'n arwydd o'r cydweithio hapus sy'n digwydd rhwng y plant, rhieni a staff Meithrinfa Ogwen."

Ann Williams ydy'r cynghorydd cymuned dros yr ardal, a'r cynghorydd sir dros ward gyfagos Ogwen, a dywedodd hithau: "Mae'n glod i'r holl staff ac mae'n dda gweld Dyffryn Ogwen yn arwain unwaith eto."

Mae Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy Gwynedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Taid a Nain
Llongyfarchiadau mawr i Mark a Karen Briggs, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed Llew Owain i'w merch, Helen, a'i phartner, Aled, sy'n byw yng Nglanogwen. Mae Llew yn frawd bach i Ela a Twm. Mae'r holl deulu wedi gwirioni ar y bychan. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda Richard a Rhiannon Hughes yn eu profedigaeth o golli nai, sef y diweddar David Williams, Stad Coetmor, a fu farw trwy ddamwain. Roedd David yn berson poblogaidd iawn, a bydd colled fawr ar ei ôl yn yr ardal.

Profedigaeth
Rydym yn cydymdeimlo'n fawr iawn gyda Robin Hughes a'i briod, Ann, Freithwen Isaf yn eu profedigaeth o golli brawd Robin, y diweddar Billy Hughes, oedd yn trigo yn Neiniolen, ond yn wreiddiol o'r ardal. Rydym, hefyd, yn cydymdeimlo gydag Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan, a'r teulu yn eu profedigaeth, gan fod y diweddar Billy Hughes yn gefnder i Alun. Ein cydymdeimlad i chi i gyd fel teulu.

Llongyfarch
Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a fu'n llwyddiannus mewn unrhyw gystadleuaeth yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Cawsom i gyd ddiwrnod ardderchog ar gaeau Dôl Ddafydd, gyda'r haul crasboeth yn tywynnu arnom gydol y diwrnod.

Diolch
Hoffai Ann Williams, trefnydd Raffl Sioe Dyffryn Ogwen, ddiolch i bawb a fu'n brysur yn gwerthu tocynnau'r raffl cyn y Sioe, ac a fu'n cynorthwyo'n brysur yn yr haul chwilboeth yn ystod y diwrnod. Bu'r Raffl yn hynod o lwyddiannus, a chafwyd gwobrau hael iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb.



Llwyddiant Hwyllo

Mae dau hwyliwr ifanc o’r Gerlan wedi bod yn dathlu’n ddiweddar ar ôl cael eu dewis i gynrychioli Prydain mewn pencampwriaethau rhyngwladol dros yr haf. Mae Mari Davies, Tŷ Dŵr, Gerlan sy’n 16 oed wedi’i dewis ynghyd â’i phartner hwyllo, Sarah Norbury, yn nosbarth y 420 ar gyfer Pencampwriaethau’r Byd yn Valencia, Sbaen yng Ngorffennaf.

Byddant wedyn yn dychwelyd o’r gwres mawr i hwyllo ar ddŵr cartref ym Mhencampwriaethau Ewrop ym Mhwillheli ym mis Awst – tipyn o gamp o gofio mai dim ond ers 9 mis maent yn hwyllo gyda’i gilydd, a'u bod yn cystadlu yn erbyn hwylywyr hŷn a llawer mwy profiadol.

Her arall a wynebwyd ganddynt oedd y tywydd garw dros y Pasg. Er mwyn cymhwyso ac ennill pwyntiau digonol rhaid oedd cystadlu yn Largs yng ngorllewin yr Alban, ac, oni bai am gymorth Bob Doyle, Tyddyn Du gyda’i dractor i symud y cwch drwy’r lluwchfeydd yn y Gerlan, ni fuasai’r genod wedi selio’u lle. Diolch o galon, Bob!

Yn yr un modd, mae Iago Davies sy’n 14 oed hefyd yn hapus ar ôl cael ei ddewis i dîm Prydain ym Mhencampwriaeth Ewrop yn Hwngari yn ystod mis Mehefin. Mae’n ffodus iawn o gael teithio i Hwngari ddwywaith, yn gyntaf ar gyfer y “Chocolate Cup” cyn dychwelyd wythnos yn ddiweddarach ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop. Mae Iago’n hwyllo yn nosbarth yr Optimist, lle y dechreuodd yr enwog Ben Ainslie ei yrfa hwyllo, ac mae’n edrych ymlaen yn fawr at hwyllo ar Lyn Balaton. Mae’r ddau’n ceisio denu nawdd ar gyfer eu cystadlaethau ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb eu cefnogi gysylltu â Huw neu Amanda ar 07423 457776 / 07811 333320.

Rydym, fel trigolion yr ardal, yn ymhyfrydu yn llwyddiant mawr y ddau ifanc yma, ac yn eu llongyfarch yn wresog, gan ddymuno pob hwyl iddynt yn eu gwahanol bencampwriaethau.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Ithel Temple Morris ac Idwal Temple Morris o Fferm Tan y Garth a gafodd ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro gyda’u modelau. Creodd Ithel fodel o’i dad yn casglu’r defaid i’r gorlan (chwith isod), tra gwnaeth Idwal fodel o bryf cop yn eistedd ar ei wê yng nghornel y sied (isod).



Nant Ffrancon

Ras Moel Eilio
Llongyfarchiadau i Mr Richard Roberts, Bronallt ar ennill ras Moel Eilio yn ystod mis Mai.

Menter Newydd
Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Thomas, Fferm Blaen-y-nant ar ei fenter newydd o werthu bwyd organig i ymwelwyr a phobl leol sy’n ymweld â Nant Ffrancon. Mae Gwyn yn enwog yn yr ardal am ei arloesedd a’i fentergarwch a dymunwn bob llwyddiant a chefnogaeth iddo. Galwch draw!

Marwolaeth
Yn Ysbyty Gwynedd ar 4 Mai bu farw Mrs Joyce Ravenscroft, Hen Felin, Nant Ffrancon yn 90 oed. Priod y diweddar Mr George Ravenscroft a mam annwyl i Joy a Gay, a nain a hen nain hoffus.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener 10 Mai gyda gwasanaeth yng Nghapel Sant Ioan, Bangor, a mynwent dinas Bangor. Cydymdeimlwn â chwi oll fel teulu.

Capel Nant y Benglog

Mis Mehefin:
23 Mrs Mair Penri Jones
30 Sheila a Haf

Mis Gorffennaf:
07 Dafydd Iwan
14 Y Parch. Huw Dylan
21 Nia

Oedfaon yn dechrau am 2.00 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Cydymdeimlo
Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys at Morfudd a Vic Jones, 24 Bro Emrys, yn eu profedigaeth fawr o golli eu merch Julie Warburton ar y 13 Mai. Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Amlosgfa ar ddydd Sadwrn Mai 18fed.

Teulu Newydd
Croeso i Mr a Mrs Steven Jones sydd wedi ymgartrefu yn 41, Bro Emrys. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Beca Nia, 36 Bro Emrys ar ddod yn 3ydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar chwarae obo.

Eglwys Maes y Groes, Talybont
Profedigaeth Trist yw cofnodi marwolaeth Kieran Fielding ar y 15fed o Fai yn ei gartref yn Felin Hen yn dilyn misoedd o waeledd. Roedd yn aelod selog a gweithgar yn yr Eglwys ac fe fydd colled i ni ar ei ôl. Cynhaliwyd ei angladd yn yr Eglwys ar y 18fed o'r mis, ac yn dilyn yn yr Amlosgfa. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer y Parchedig John Matthews gyda chymorth y Barchedig Jenny Hood a Geraint Gill wrth yr organ. Hoffem anfon ein cydymdeimlad dwys at Cora a'r teulu i gyd yn eu colled fawr. Croeso Croeso gartref i Gracie Griffiths, Llwyn y Wern, yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Eryri. Da deall ei bod yn gwella'n foddhaol. Priodas Llongyfarchiadau i Dennis Wright a Beryl Roberts ar eu priodas yn yr Eglwys ar 11 Mai. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau yn y dyfodol. Bedydd Ar y 26ain o Fai cynhaliwyd bedydd Charlie Spencer, mab Jenny a Glen ac ŵyr Barry ac Ivy Lill, 39 Bro Emrys. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Barchedig Jenny Hood a'r organydd oedd Barry Wynne. Erbyn hyn mae'r teulu wedi dychwelyd i America.
Cynhelir Te Mefus yn Ysgoldy Maes y Groes Brynhawn Sadwrn, 29 Mehefin am 3 o'r gloch.

Capel Bethlehem, Talybont

Oedfaon

Mehefin
23 Parchg. Emlyn Richards, Cemaes ;
30 I'w gyhoeddi ;

Gorffennaf
07 : Gweinidog ;
14 : Parchg. W. H. Pritchard ;
21 : Gweinidog.

Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Y Gymanfa
Llongyfarchiadau i blant yr Ysgol Sul am eu rhan yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel Carmel, Llanllechid, ar 19 Mai, ac am dderbyn gwobrau am eu gwaith yn yr Ysgol Sul. Dyma'r enwau :- Cara, Rebecca, Ceri, Elliw, Caleb, Joseph, Ben, Keira, Sam a Corey.

Ymweliad
Braf oedd cael croesawu rhai o ddisgynyddion Y Parchedig Edward Stephen (Tanymarian) i Fethlehem ddiwedd mis Mai. Roeddent yn awyddus iawn i weld y capel ble bu eu perthynas enwog yn gweinidogaethu o'r flwyddyn 1856 hyd at 1885, yn ogystal â'r ddau bortread olew ohono sydd yn dal ar furiau'r festri.

Priodas

Ar brynhawn Iau braf, 6 Mehefin, disgleiriodd yr haul ar y fodrwy pan gynhaliwyd gwasanaeth priodas Rhian Ellis, Bro Emrys, ac Andrew John Gardiner, o Ogledd Iwerddon. Gweinyddwyd y seremoni gan y Parchedig Geraint Hughes, gyda Mrs. Barbara Jones wrth yr organ. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol i'r dyfodol.

Cynhelir ein

Te Mefus Blynnyddol

yn y Festri ar
nos Fercher, 10 Gorffennaf,
am 7.00 o'r gloch.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda David a Laura Lewis, Llanfairfechan (20 Pentre Llandygái gynt) yn eu profedigaeth o golli tad, taid, a hen daid annwyl, sef y diweddar David Gwilym Lewis, Penrhos, Bangor yng nghartref nyrsio Glan Rhos, Brynsiencyn ar 3 Mai.

Marwolaeth
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Kieran Fielding, The Granary, Felin Hen, Bangor ar 15 Mai. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Maes y Groes ddydd Sadwrn, 18 Mai, gyda'r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Cynhaliwyd gwasanaeth pellach yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth 21 Mai.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i annwyl wraig Cora, ei blant Non, Joe ac Andy a'r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw.

Gwaeledd
Rydym yn anfon ein cofion annwyl at Beryl a Jim Hughes, Yr Elan, sydd wedi bod yn bur wael yn ddiweddar. Gobeithio y bydd pethau'n gwella i chi i gyd fel teulu.

Balch oeddem o ddeall bod Mrs Olwen Lytham wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd ddiwedd mis Mai.

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i Ernie a Nerys Coleman, Dr Pam Jones, Cassie Tindall, Mary Robinson, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams.

Diolch
Hoffai Mrs Pauline Edwards, Hen Dŷ'r Ysgol, Pentre Llandygái ddiolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd yn anfon cardiau ac anrhegion a gwneud galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn mis Ebrill.

Bingo
Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth 21 Mai a gwnaed elw sylweddol o £70 i gronfa'r neuadd. Diolch fel arfer i Pauline a Raymond am drefnu'r Bingo, i ferched y paned ac i bawb arall a ddaeth i wneud y noson yn llwyddiant. Diolch i Joy hefyd.

Pen-blwydd Arbennig
Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Cari Jones (4 Pentre Llandygái gynt) a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar ddydd Mawrth 9 Gorffennaf. Hwyl fawr iti Cari. Gobeithio y cei di lond trol o gardiau ac anrhegion – llwyddiant mawr iti i'r dyfodol hefyd.

Eglwys Sant Tegai

Cydymdeimlo
Estynnir cydymdeimlad dwys â Miss Nerys Jones, Beryl ei chwaer a'r teulu oll ar farwolaeth eu cefnder, Mr Eric Davies, gynt o Drefelin, Llandygái. Cynhaliwyd ei wasanaeth coffa yn Eglwys Sant Tegai ddydd Gwener, 17 Mai a chladdwyd ei lwch ym mynwent yr Eglwys.

Gwaeledd
Anfonwn ein cofion cynnes at Jane Couch, Gwynne Edwards a Harry Gross a dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi eich tri.

Bu Liz Jones, 21 Pentre Llandygái yn anlwcus iawn! Fe faglododd yn yr ardd gan gracio ei hwmerws ac mae mewn andros o boen, a'r fraich mewn gwregys ar hyn o bryd. Gobeithio na wna'r anffawd yn eich rhwystro rhag mynd ar eich gwyliau, Liz.

Pen-blwydd Arbennig
Rydym yn anfon ein dymuniadau da at Hefina Chamberlain a fydd yn dathlu ei phen-blwydd arbennig ar ddydd Mawrth, 25 Mehefin. Credaf fod Hefina wedi cynllunio'n barod sut y mae am ddathlu ei phen-blwydd yma – hwyl fawr iddi a'r teulu i gyd.

Bydd Thomas Stevens, ŵyr Hefina a mab i Emma a Chris, sydd yn byw yn Ynys Wyth, yn cael pen-blwydd arbennig hefyd yn ddeunaw oed. Gobeithio y cei di ddiwrnod wrth dy fodd Thomas ar 6 Gorffennaf – ti a dy frawd Charlie.

Pen-blwydd
Llongyfarchiadau calonnog i Huw Llewelyn Jones, a fydd yn dathlu ei ben-blwydd ddydd Sul, 30 Mehefin ac y bu pawb yn garedig wrthyt – ond cofia y bydd yn rhaid i ti fynd i'r ysgol fore Llun!

Ffair Haf
Yn y Ficerdy, Pentir
Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf
1.00 – 4.00 pm Yr elw i'w rannu

Bore Coffi Hefina
yn y Berllan, Parc Penrhyn
Dydd Sadwrn 27 Gorffennaf
10.00 am – 12.00 pm Yr Elw at Sant Tegai

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Gwellhad buan
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da at ddau o’r ardal sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae Ann Illsley, Pen y Cefn wedi cael clun newydd, ac mae Allan Jones, Merddyn Gwyn, Waen Wen, hefyd wedi derbyn triniaeth yn yr un ysbyty. Da yw clywed fod y ddau gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Pen-blwydd Hapus
Dymuniadau gorau i Mrs Vera Williams (gynt o 28 Caerhun), Cartref Springholme, Traeth Coch sy’n dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Mae’n ddarllenwr brwd o’r Llais. Pen-blwydd Hapus iawn gan bawb o griw’r Llais.

Bingo
Mi wnaeth y noson Bingo a gynhaliwyd nos Wener, 17 Mai godi cyfanswm o £120 tuag at Dîm Achub Dyffryn Ogwen. Diolch i bawb. Cynhelir y sesiwn Bingo nesaf ar 19 Gorffennaf am 7.30yh gyda’r arian a godir yn mynd at Apêl Eleanor Jones.

Clwb Cant Y Ganolfan - Mai

£20 - 64 - Mair Banham
£10 - 1 - Vera Williams
£5 - 46 - Jean Pierce
£5 - 64 - Myra Jones

Sefydliad y Merched
Bu cyfarfod mis Mai ar yr 8fed dan lywyddiaeth Mrs Jean Pierce. Estynnodd groeso cynnes i bawb a llongyfarchwyd Mrs Ingrid Farrer a Mrs Sarah Flynn ar eu llwyddiant yn y ffair grefftau a gynhaliwyd yn Llanberis. Diolchwyd i Mrs Mair Griffiths am drefnu prynhawn difyr eto eleni ym Mhlas Maenan. Cafwyd sgwrs ar dyfu tegeirian (orchid) gyda 'te bach' i ddilyn. Dyma wledd ynddi'i hun.

Mwynhawyd gweddill y noson, ar ôl trafod materion y sefydliad, yng nghwmni Mrs Frances Williams a ddaeth i ddangos sleidiau a sgwrsio am ei thaith i'r Wlad Sanctaidd. Bu Mrs Williams yn teithio o Jerwsalem i Jerico ar fws gan ymweld â llawer man â chysylltiad Beiblaidd.

'Roedd y sleidiau’n ddiddorol iawn ac mae'n amlwg fod Mrs Williams wedi mwynhau ei hun yn fawr iawn.

Diolchwyd iddi gan Mrs Linda Irons a darparwyd paned o de gan Mair, Margaret a Jean.

Diolch i Mrs Glenys Morgan am roi'r raffl. Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesa pan gawn noson o osod blodau yng nghwmni Carol o Fiwmares.

Canolfan Glasinfryn
Mi gafodd Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan ei gynnal nos Lun, 17 Mehefin. Etholwyd swyddogion am y flwyddyn i ddod, ynghyd ag aelodau o’r Pwyllgor. Dilynwyd y Cyfarfod Blynnyddol gan gyfarfod pwyllgor arferol ac fe drafodwyd nifer o bynciau gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
01248 355686

Parchu Pentir
Ar fore dydd Mercher 15fed o Fai daeth nifer ohonom i Hen Gapel i ddechrau ar daith gerdded.

Cawsom ein tywys gan Lucy i fyny Lôn Rallt mor bell â "Byd y Rhedyn". Amcan y daith oedd dysgu am y planhigion a'r llysiau cyffredin sydd ar gael yn y cloddiau, y gallwn eu bwyta a'u defnyddio i roi blas ar brydau bywd.



Mae ein gwrychoedd yn llawn planhigion hynod a rhai ohonynt yn flasus iawn! Roedd yn fore diddorol ac addysgiadol dros ben.

Plant prysur Pentir
Llongyfarchiadau i Marteg Dafydd ar ennill yr unawd telyn dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro. Bu Marteg a Luc yn perfformio yn y cyflwyniad dramatig dan 12 gan gipio'r wobr gyntaf gydag Ysgol y Garnedd. Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Reuben Lamers James am ddod yn gyntaf yn y wobr fathemategol i fechgyn 11 - 13 oed.

Daeth llwyddiant hefyd i Menai Lamers James ar basio'i harholiad sacsoffon Gradd 6 yn ddiweddar. Daeth Cedol Dafydd yn gyntaf yn rasmus triathlon Gwynedd i fechgyn blwyddyn 7 ym Mhorthmadog a daeth Marteg hefyd i'r brig, y tro hwn yn y gala nofio Datblygu'r Ifanc am y ferch orau yn ei blwyddyn.

Gerddi Agored
Ar Orffennaf y 6ed bydd tair gardd ar agor ym Mhentir yn ystod y prynhawn. Croeso i bawb ymweld a chynigir paned a chacen.

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Mai 2013

1af Rhif 25 Helen Bradley
Rhiwlas
2ail Rhif 46 David E Williams
Glasinfryn
3ydd Rhif 47 Ian Williams
Rhiwlas

Garddwest
Cynhaliwyd ein Garddwest Flynyddol eleni yn Y Ficerdy, Pentir, drwy garedigrwydd Y Parch. a Mrs. John Matthews ar brynhawn Sadwrn 25ain o Fai. Agorwyd yr arddwest gan ein Curad Y Parch. Jenny Hood, ar ôl agor yr arddwest cymerwyd yr awenau a’n harwain drwy weithgareddau'r prynhawn gan Anwen Thomas. 'Roedd amryw stondinau, Helfa Drysor o amgylch gardd Y Ficerdy, 'roedd cystadleuaeth arbennig i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Coffa Leslie Crocombe. Enillydd yr Adran Meithrin oedd Sophie; enillydd Blwyddyn Derbyn i Flwyddyn 2, Cara; ac enillydd Blwyddyn 3-6 oedd Gwen.

Roedd gwahanol rafflau sef, Raffl Plant, Raffl Teisen a Raffl Llun a oedd yn rhoddedig gan Alan Jones, Waun Wen. Yr enillwyr oedd:

Raffl Plant: taleb £20 - Lewis
Raffl Llun: Nesta Barton
Raffl Teisen: Alison.

Ar ddiwedd prynhawn hwyliog, braf a llwyddiannus a fwynhawyd gan lawer diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan y Barchedig Christina McCrea.

Ffarwelio â'r Curad
Trist iawn yw gorfod ffarwelio â’n Curad, y Barchedig Jenny Hood ar ôl tair blynedd yn ein mysg, gan fod Jenny yn gadael y plwyf ddiwedd Mehefin. Diolchwn i Jenny am ei gweinidogaeth, ei chymorth a'i chyfeillgarwch dros y tair blynedd diwethaf. Pob lwc Jenny yn eich swydd newydd fel Caplan Ysbyty yn Salford, Manceinion.

Cleifion
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at Ann Illsley, Pen y Cefn, Pentir, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Yr un yw'r dymuniadau i Anti Maggie, Rhes Penrhyn, Waun Pentir a Mai Williams, Bro Rhiwen, Rhiwlas. Dymunwn adferiad buan i’r tair ohonoch.

Bingo
Cynhelir noson o fingo yn y Ganolfan, Glasinfryn, Nos Wener 21 Mehefin am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**PICNIC A CHERDDORIAETH
YM MHENTIR**
Yn Nghae Bryn Meddyg
Nos Sadwrn 27 Gorffennaf.
Tocynnau £5.00 Oedolion
Plant gydag oedolyn am ddim.
Cerddoriaeth gan
Y SHORELINERS

Dowch â'ch picnic gyda chi.
Bydd mannau wedi eu cysgodi
rhag y glaw gyda chadeiriau a
byrddau fel arfer.

Byrgyrs ar werth a diodydd
alcoholaidd a meddal ar gael wrth
y bar.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
352835

Geni
Pleser yw llongyfarch Gareth ac Ann Roberts, 4 Caeau Gleision ar ddod yn daid a nain unwaith yn rhagor. Ganwyd Myfanwy Mai (Myfi) ar 13 Mai i’w merch Gwenno a’i phriod Rhys, sy’n byw yn Ninbych. Chwaer fach i Guto a Lleucu.

Holi Hynt – Marshall Yates
Yn ystod misoedd cyntaf y rhyfel mawr diwethaf daeth llu o blant o Loegr i Gymru i chwilio am loches rhag y bomiau a beryglai eu cartrefi, nifer ohonynt i Riwlws. Wedi i’r perygl glirio dychwelodd y rhan fwyaf ohonynt at eu teuluoedd, ond nid pawb. Arhosodd ambell un gyda’r teuluoedd a roes groeso iddynt ar eu haelwydydd, gan ddod yn y man yn aelodau gwerthfawr o’r gymuned.

Un a arhosodd oedd Marshall Yates, a gefnodd ar Lerpwl yn saith oed a chael cartref gyda John Elwyn ac Enid Jones yn Bronallt, dau a ddaeth yn fuan iawn yn Yncl John ac Anti Enid iddo. Bydd ambell un o’i gyd-ddisgyblion yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn holi weithiau am hynt a helynt Marshall.

Mynychodd Ysgol Rhiwlas, Ysgol Dyffryn Ogwen a Choleg Prifysgol Bangor. Arhosodd yn Rhiwlas nes iddo raddio ym Mangor cyn symud ymlaen i wneud cwrs doethuriaeth. Mae’n byw gyda’i wraig Ann gerllaw Lewes yn Sussex ac mae ganddynt dri o fechgyn. Cyn ymddeol roedd yn ddarlithydd ac ymchwilydd ym Mhrifysgol Sussex. Maes ei ddoethuriaeth a’i waith ymchwil yw’r modd y cynhyrchir nitrogen gan blanhigion, megis meillion, pys a ffa, sef planhigion sy’n lluosogi trwy ddatblygu had mewn podiau. Mae’n faes sy’n dod yn gynyddol bwysig gan fod y planhigion hyn yn ychwanegu nitrogen i’r pridd gan leihau dibyniaeth ar wrteithiau cemegol.

Bydd Marshall yn treulio cyfnodau ym Mrasil yn darlithio ac yn trafod a hyrwyddo datblygiadau yn y pwnc yno. Gofala am neilltuo wythnos o bob blwyddyn i ddod yn ôl i Riwlas a gorau oll os yw'r gwyliau yn cyd-daro ag adeg hel llus. Mae'n rhugl ei Gymraeg ac yn derbyn Llais Ogwan yn fisol. Gofala hefyd am gael Calendr y Llais.

Un o Hogia Rhiwlas yw Marshall o hyd ac mae'r gofal a'r cariad a gafodd gan Yncl John ac Anti Enid ym Mronallt yn parhau'n fyw yn ei gof.

Cydymdeimlo
Ganol Mai bu farw Robert Meurig Griffiths, gynt o Stryd Uchaf, Rhiwlas, mab John Owen a Maggie Griffiths a brawd Nancy, Islwyn a'r diweddar Joan. Cafodd ei addysg yn Ysgol Rhiwlas ac Ysgol Sir Bethesda. Wedi gadael ysgol cafodd swydd fel darpar-beiriannydd gyda'r BBC ym Mangor. Wedi hynny bu'n beiriannydd am flynyddoedd gydag adran chwaraeon y BBC yn Llundain. Wedi ymdeol, daeth ef a'i briod, Lilian, i fyw i Lanfairpwll. Yn anffodus, bu farw Lilian ychydig o flynyddoedd yn ôl. Roedd ganddynt bedwar o blant, tri mab a merch. Dymunwn gydymdeimlo'n gywir iawn gyda holl gysylltiadau teulu Meurig.

Byd y Bêl
Bydd y sawl fu'n gwrando ar y rhaglen 'Ar y Marc', Radio Cymru, fore Sadwrn 31 Mai wedi clywed Tony Jones, 9 Bron y Waun a Dylan ei fab yn cael eu cyfweld gan Dylan Jones, cyflwynydd y rhaglen. Daeth y ddau i sylw oherwydd llwyddiant y ddau dîm pêl-droed roeddynt yn rheolwyr arnynt yn ystod y tymor a aeth heibio.

Mi wnaeth Pentraeth o dan reolaeth Tony Jones ddiweddu'r tymor ar frig eu cynghrair. Felly hefyd Mynydd Llandygái o dan reolaeth Dylan. Nid yw llwyddiant Pentraeth yn peri unrhyw syndod i'r sawl sy'n gwybod am brofiad Tony Jones fel rheolwr dros gyfnod o flynyddoedd.

Sefydlodd dîm ieuenctid yn Rhiwlas yn 1990 gyda chymorth rhai eraill o'r pentref, tîm a barhaodd am saith mlynedd. Treuliodd 6 mlynedd ym Miwmares cyn dychwelyd i Riwlas i sefydlu tîm oedolion. Treuliodd gyfnod ym Methesda fel is-reolwr, ac yna'n is-reolwr yr ail dîm am ddwy flynedd. Symudodd i Langefni am dymor ac yn olaf i Bentraeth.

Mae'n amlwg fod Dylan, sy'n athro yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy wedi etifeddu doniau ei dad.

Clwb Rhiwen
Cafodd yr aelodau gipolwg ar waith a chyfrifoldebau cynghorydd sir pan ddaeth y

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas

Cyfarfod Mis Mai
Croesawyd ni i'r cyfarfod gan Helen ac anfonwyd ein cofion at yr aelodau sydd ddim yn teimlo'n dda. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai na allent fod yn bresennol.

Brethyn cartref oedd gennym, ac roeddem yn trafod Atgofion. Bu Helen yn sôn am ei magwraeth ym Mhorthmadog, ble roedd ei rhieni'n cadw tŷ capel. Daeth Carys â chwilt a brynodd yn Thailand pan oedd hi a Cynrig yn teithio adref ar ôl cyfnod yn Awstralia a chafodd Sali sawl tro trwstan tra'n ymweld â'r Môr Marw. Hefyd cafwyd tipyn o atgofion am ddyddiau ysgol yn Rhiwlas a thu hwnt. Cytunwyd ein bod wedi cael noson ddiddorol a chartrefol.

Carys a Iona a wnaeth y baned, a'r mis nesaf byddwn yn mynd allan am swper i Borthaethwy.

Cynghorydd Hefin Williams i'n hannerch ddechrau Mai. Soniodd am amryfal ofynion y swydd a'r ceisiadau a ddeuai am gymorth o'r ardaloedd sydd dan ei ofal.

Roedd yn ddiddorol ei glywed yn egluro mai cabinet o ddeg cynghorydd sydd â'r cyfrifoldeb o reoli Cyngor Gwynedd. Roedd hyn yn newydd i lawer ohonom. Cedwir golwg ar benderfyniadau'r Cabinet gan gyfres o bwyllgorau gyda'r Cynghorydd Hefin Williams yn un ohonynt. Y mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

Diolchwyd iddo gan Dilys, a gadarnhaodd iddi ei ganfod yn gyflym iawn ei ymateb pan wnaeth gais am ei gymorth.

Ar 22 Mai fe aethom allan am de i'r Tŷ Hyll. Mae'n debyg ein bod i gyd wedi mynd heibio'r fangre yma laweroedd weithiau, ond faint a wyddom am hanes y lle? Yn ôl pob sôn, tŷ unnos ydoedd, a bu sawl teulu'n byw yno dros y blynyddoedd, ac er gwaethaf yr enw anghyffredin y mae'n bell o fod yn dŷ hyll. Yn ôl un hanes, ei enw yn wreiddiol oedd Llugwy House, gan ei fod yn union gyferbyn â'r afon honno, a dywedir fod yr ynganiad, ar dafod y Sais, wedi ei lurgunio i Ugly House.

Yn ystod 80au'r ganrif ddiwethaf bu'r bwthyn yn wag ac yn 1988 fe'i prynwyd a'i adnewyddu gan Gymdeithas Eryri. Bu'n bencadlys y Gymdeithas tan yn ddiweddar ond, erbyn hyn, mae swyddfeydd y Gymdeithas wedi symud i'r Caban ym Mrynrefail. Bellach mae caffi gwerth chweil ar y llawr gwaelod ac, ar y llawr uchaf, ceir arddangosfa o hanes y gwenyn ac mae'n fwrriad creu canolfan i ddiogelu a hyrwyddo gwenyn mêl Cymreig yno. Erbyn

hyn mae 5 erw o ardd a choedwig yno, a chyfle i fynd am dro pleserus.

Cawsom bnawn hynod o ddiddorol, pawb wedi mwynhau'r baned a theisen ac ambell un yn genfigennus o'r deisen a ddewisodd Eirlys a Dilys! Diolchwyd i Ann am drefnu'r ymweliad.

Cymorth Cristnogol
Casglwyd £393.38 yn y pentref tuag at Gymorth Cristnogol eleni.

Diolch i'r casglyddion canlynol am ysgwyddo'r baich o gasglu o dŷ i dŷ: Dyddgu Pritchard Owens, Dilys Parry, Iona Jones, Alison Roberts a Steffan Job.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr a Mrs Trevor Stewart a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu merch-yng-nghyfraith. Rydym ym meddwl amdanoch.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr a Mrs Peter Price. Collodd Peter ei frawd. Colled drist i'r teulu i gyd. Pob bendith i chwi.

Brysiwch Wella
Nid yw Dei Parry a Megan yn rhy dda ar hyn o bryd. Mae Megan wedi bod yn yr ysbyty a Dei yno ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion atoch gan fawr obeithio am adferiad buan. Cymerwch ofal.

Noson o Ddiolch
Cynhelir noson o ddiolch i Chas ac Iona Sewell am eu gwaith a'u caredigrwydd yn y pentref. Mae ein dyled yn fawr iddynt ac mae croeso i bawb yn y Neuadd Goffa ar 29 Mehefin, gyda chaws a gwin ar gael. Edrychwn ymlaen at eich gweld.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i Ifan Rhys Cooke, Cwm Hyfryd, Mynydd Llandygai fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro ar ddiwedd Mis Mai. Roedd Ifan yn rhan o gast Ysgol y Garnedd, Bangor, ddaeth i'r brig drwy ennill y wobr gyntaf yn y Cyflwyniad Dramatig i Ysgolion Cynradd. Roedd hefyd yn y Gân Actol fu'n perfformio ar lwyfan y Steddfod ac a lwyddodd i ddod yn bedwerydd allan o bymtheg Cân Actol.

Marwolaeth
Wrth i'r Llais fynd i'r wasg clywsom y newyddion trist am farwolaeth Mr. Edward Oliver, Arafon. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Margaret Oliver a'r teulu i gyd.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Mehefin.
16: 9.45 Boreol Weddi
23: 9.45 Cymun Bendigaid
30 10.00 Cymun Bendigaid - Eglwys Crist, Glanogwen (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

Gorffennaf
07: 9.45 Gwasanaeth Teuluol
04: 9.45 Cymun Teuluol
21: 9.45 Boreol Weddi

Diolch i bawb a gefnogodd De Bach y Sulgwyn. Braff oedd gweld cynifer o'n cyfeillion yn mwynhau eu hunain.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Estynnwn groeso i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau yn ystod y mis.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Llwyddiant
Llongyfarchiadau calonnog i Elin Haf Taylor, 11 Tal y Cae, Tregarth sydd wedi llwyddo i basio Gradd 8 gyda'r Soddgrwth, a hynny gydag Anrhydedd.



Cychwynnodd Elin ei diddordeb gyda gwersi ar y soddgrwth yn Ysgol Llanllechid a bellach mae'n aelod o Bedwarawd Llinynnol Canolfan William Mathias, Cerddorfa Gogledd Cymru, Cerddorfa Gwynedd a Môn a Cherddorfa Prifysgol Bangor.

Dymuniad Elin yw parhau i astudio Cerdd ym Mhrifysgol Bangor ar ôl gadael Ysgol Tryfan y flwyddyn nesa.

Cylch Meithrin Tregarth

Dan ni wedi cael hanner tymor prysur iawn yn y Ganolfan yn Nhregarth. Plannu blodau haul, mynd ar daith gerdded noddedig, dysgu, chwarae a chael hwyl a sbri.

Llongyfarchiadau i Elliw Hywel am ddod yn chwaer fawr i efeilliad, Gerallt a Cernwy. Pob hwyl i chi fel teulu.

Oes gynnwch chi blentyn 2 oed neu hŷn? Beth am i'ch plentyn ymuno â ni? Dan ni'n cymryd enwau ar hyn o bryd ar gyfer mis Medi.

- Cylch Meithrin Tregarth (Rhan o Mudiad Ysgolion Meithrin)
Dydd Llun - Dydd Gwener 9-12yb £6.50 y sesiwn
- Clwb Cinio £4 y sesiwn (plant Meithrin Ysgol Tregarth yn unig)

Ti a Fi

Cylch Meithrin Tregarth

Dewch i chwarae, canu ac am banded. Mae 'na gyfle hefyd i siarad gyda Menna Williams, yr Ymwelydd Iechyd a phwyso eich babi.

- Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth Bore
Gwener 10 - 12yb £2.00.

NEWYDD:

Clwb Plant Gwyliau'r Haf

o 22/07/2013 tan 16/08/2013

8.30 y.b. - 5.30 y.h.

Plant 2 oed i 11 oed

Hanner diwrnod £12.50

Diwrnod llawn £20.00

Ffoniwch 01248 602802

neu 07825 406640

Oes gennych chi gymhwyster lefel 2 neu 3 mewn gofal plant? Hoffem i chi gysylltu â ni. Dan ni'n edrych am staff wrth gefn i ymuno gyda'n tîm arbennig o Antis.

Côr y Penrhyn

Y Côr yn Beverley

Mae'n od o fyd pan fydd un o sylfaenwyr a phrif ohebyddion Llais Ogwan yn gweld angen i droi ei sylw at bapur lleol cyfagos i ddatgan ei farn am ymddygiad rhai o drigolion amlycaf yr ardal honno ar drip y côr i Swydd Efrog.

Onid gwell fyddai iddo gofio amdano ei hun, ac yntau ymhlith un neu ddau o lyncwyr mwyaf y trip, a oedd ar eu ffordd i'w gwlaau pan oedd rhai yn meddwl am godi.

Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

A oes gennych ddiddordeb yn hanes yr ardaloedd uchod? Os oes, Festri Capel Carmel, Rachub yw'r lle i fod nos Wener, 28 Mehefin 2013 am 7.00 o'r gloch. Ni fydd yn gyfarfod ffurfiol fel darlith, ond cyfle i bawb sydd â diddordeb i ddod i adrodd eu hanesion a'u storïau eu hunain am ddigwyddiadau difyr, cymeriadau a phobl yr ardal, hanes yr ysgolion, siopau, adeiladau diddorol, dawnsfeydd John P. a digwyddiadau eraill o fewn yr ardal. Os oes lluniau o'r ardal genych byddai'n ddifyr cael eu gweld.

Y gobaith yw casglu a chofnodi'r holl hanes sy'n perthyn i'r ardal. Bydd y cyfarfod yn agored i bawb sydd â diddordeb yn yr hen hanes. Dewch yn llw i rannu eich atgofion, eich storïau a hanesion am yr ardal.

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*

Ffôn: 01286 870605



Posh Paws Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00

Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebost: juliaposhpaws@btinternet.com

Yr Haul yn Rhoi Hwb i'r Sioe



Teuluoedd yn mwynhau'r tywydd braf yn y sioe.


Daeth y torfeydd wrth eu cannoedd i Gaeau Rygbi Dôl Ddafydd ar 8 Mehefin, gan sicrhau fod 40fed Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn llwyddiant ysgubol!
'Roedd teimlad o ryddhad eleni o gael diwrnod mor braf yn dilyn siom y stormydd a'r canslo y llynedd. Gwên lydan ar wynebau pawb, yn enwedig trefnwyr y Sioe!
Ac mae swyddogion y Sioe ac aelodau'r pwyllgor yn diolch o galon i bawb yn ardal Dyffryn Ogwen a thu hwnt am eu cefnogaeth wych eleni. Maent hefyd yn ddiolchgar i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y Sioe. Ac wrth gwrw diolch i bawb fu'n cystadlu hefyd. Gobeithiwn gynnwys rhestr o'r buddugwyr yn y rhifyn nesaf.




Gwenda Jones, Glanffrydlas, Bethesda. Enillydd y cwpan yn yr Adran Wau.



Iestyn ap Dafydd, Bryn Meurig Bach Cyntaf: Arlunio'r Byd Chwaraeon ac ail yn y gystadleuaeth Wellington




Alan Davies, Mynydd Llandygai, - enillydd cwpan yr Adran Arddio.




Huw a Gwenno Jones, Gerlan. Enillwyr sawl gwobr yn y babell Gynnyrch.



Begw Angharad Evans, Mignant, Llanllechid - gwobr 1af (bl. 4) "Llun o Fferm".



Y Bwgan Brain gorau o waith brawd a chwaer o Fynydd Llandygai, sef Morus Ifan a Gwenlli Elen Sanderson.



Barbara Owen, Rhos y Nant, Bethesda. Enillydd sawl gwobr yn yr Adran Bwytho.



Kara Bullock, Braichmelyn. Cyntaf am wneud "Victoria Sponge".

Y Boncathod



Bu'n flwyddyn brysur i'r Boncathod, grŵp o genod o'r Dyffryn sy'n canu caneuon gwerin Cymraeg yn ddigyfeiliant.

Fis Mai'r llynedd, roedden nhw'n canu yng nghynhadledd Merched y Wawr ym Mangor, ac fe ddaeth sawl gwahoddiad arall i ganu yn sgil y perfformiad hwnnw.

Ar ôl seibiant dros yr haf, fe fuon nhw'n canu yng Ngŵyl Afon Ogwen ac yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn Nolgellau. Yna, dyna droi eu golygon at y Nadolig, a derbyn sawl gwahoddiad i ganu carolau, gan godi arian lle'r oedd cyfle i wneud hynny at Ambiwylans Awyr Cymru.

Daeth 2013 â pherfformiad yn Neuadd Ogwen yng nghyngerdd lansio llyfr J. Elwyn Hughes, Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen, ac yn festri Shiloh, Tregarth ar wahoddiad Merched y Wawr. Noson i ddathlu Gŵyl Ddewi oedd honno, a bu'r genod yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Sir Fôn hefyd yng nghwmni Clwb Pensiynwyr Bodffordd, lle cawsan nhw groeso mawr.

Yn fwy diweddar, bu'r genod yn canu mewn cyngerdd yn y Clwb Criced er mwyn codi arian at Gronfa Eleanor Jones ac, am y tro cyntaf, mewn priodas ym Mangor. Wrth i'r Llais fynd i'r wasg roedden nhw'n brysur yn paratoi i ganu mewn cyngerdd yn Neuadd PJ, Bangor nos Sadwrn, 22 Mehefin er budd Cymdeithas MS.

Os ydych yn awyddus i'r Boncathod ganu i'ch cymdeithas chi, cysylltwch â Gaynor ar 01248 602481 neu e-bostiwch: boncathod@hotmail.com

Taith Gerdded

Ar ddydd Sadwrn 13 Ebrill bu Mr. Douglas Hughes, 18, Abercaseg a chwech o'i gyfeillion ar daith gerdded o Fethesda i Lanberis dros Fynydd Llandygai. Casglwyd £1,142.00 at Ambiwylans Awyr Cymru. Dymuna Doug a'i ffrindiau ddiolch i bawb am eu noddi.



Dyma lun o'r hogiau ar eu taith.

O'r Cyngor

CYNGOR CYMUNED PENTIR

Yng nghyfarfod diwethaf cyngor cymuned Pentir, ymunodd yr Arolygydd Neil Thomas a'r blismones Elin Roberts â'r Cyngor. Nododd yr Arolygydd fod nifer y troseddau yn yr ardal wedi lleihau o 20% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod y sefyllfa yn yr ardal yn gyffredinol yn dda iawn.

Roedd arian wedi ei dderbyn gan Gynulliad Cymru i gael rhagor o swyddogion PCSO i Ogledd Cymru fyddai'n chwyddo'r niferoedd i 27 yn y dyfodol agos.

Lleisiwyd ambell i broblem gan y cynghorwyr, fel y broblem sydd o gwmpas y siop ym Mhenrhosgarnedd ar adegau a'r broblem o geir yn parcio ar y palmentydd ger y garej. Nodwyd fod Elin Roberts yn cynnal cyfarfodydd misol yn Ysbyty Gwynedd er mwyn ceisio trafod problemau pobl yr ardal a'i bod yn bwysig i bobl fynychu er mwyn lleisio eu pryderon. Estynwyd gwahoddiad hefyd i Elin Roberts fynychu cyfarfod o "Parchu Pentir". Cynigiwyd i un o'r cynghorwyr fynd gyda hi o gwmpas yr ardal i'w chyflwyno i'r bobl.

Yng ngweddill y cyfarfod nodwyd fod archwiliad o gae chwarae Caerhun wedi ei drefnu yn y dyfodol agos gan ROSPA.

Ar yr un noson cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor. Ail-etholwyd y cynghorydd Dewi Jones fel Cadeirydd a'r cynghorydd Lowri James fel Is-gadeirydd am y flwyddyn nesaf.

Mewn cyfarfod arbennig ar Fai 15fed cytunodd y Cyngor y fantolen am 2012/13. Bydd y fantolen a phapurau eraill y Cyngor yn cael eu harchwilio gan archwilydd o hyn tan ddiwedd mis Mai.

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yng Nghanolfan Tregarth ac etholwyd y Cynghorydd Dafydd Owen i'r gadair gan ddymuno'r dda iddo yn ystod ei dymor yn y swydd. Wrth gymryd drosodd diolchodd i'w ragflaenydd y Cynghorydd Rhys M Llwyd am ei lafur a'i ymroddiad yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Mair Leverett yn is-gadeirydd, y Cynghorydd Rhys M Llwyd ac Angharad Williams ar bwyllgor Canolfan Tregarth, y Cynghorwyr Ms S A Breward a Mrs E Frodsham ar Neuadd Goffa Mynydd Llandygái a'r Cynghorydd Mrs M Leverett ar Neuadd Talgai. Cynrychiolir y Cyngor ar y Cydbwyllgor Gwarchod Cymunedol gan y Cynghorydd Mrs Elin Sanderson.

Bydd cynrychiolwyr ar lywodraethwyr yr ysgolion yn parhau yr un fath – sef y Cynghorydd Ms Lynn Ashton yn Ysgol Bodfeurig, y Cynghorydd Dafydd Owen yn Ysgol Tregarth a'r Cynghorydd Mair Leverett yn Ysgol Llandygái.

Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fydd y cynrychiolwyr ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru, y Cynghorydd Dafydd Owen ar Dîm Prosiect Bangor a'r Cynghorydd Mrs Gwen Griffiths ar y Cyfarfodydd Heddlu. Bydd y Cynghorydd Mrs E Frodsham yn cynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Cyswllt Chwarel y Penrhyn.

Parheir i roddi sylw i faterion prifffyrdd a llwybrau'r ardal a bydd rhagor o

gysgodfannau bws yn cael eu trin yn y dyfodol agos.

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanllechid nos Lun Mai 13 yn festri Capel Bethlehem Talybont.

Etholwyd y swyddogion canlynol i arwain y Cyngor am y flwyddyn 2013-2014

Cadeirydd: Y Cyng. Wyn Bowen Harries
Is Gadeirydd: Y Cynghorydd Robert Doyle

Aelodau is bwyllgor -
Mynydd Llanllechid a Llwybrau- Cynghorwyr Megan Tomos, Margaret Fernley, Kevin Williams a Wyn Bowen Harries

Etholwyd y canlynol ar bwyllgorau allanol:

Neuadd Talgai- Cynghorydd Jacque Hughes
Tŷ Newydd- Cynghorydd Karen Desch
Traeth Lafan- Cynghorydd Darrelle Smith
Partneriaeth Ogwen- Cynghorwyr Wyn Bowen Harries a Kevin Williams

Yn dilyn hyn cynhaliwyd Cyfarfod misol arferol Cyngor Cymuned Llanllechid pryd trafodwyd -

Llifogydd
Er bod dyddiad wedi ei drefnu i gynnal ail gyfarfod cyhoeddus derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyngor Sir eu bod yn disgwyl adroddiad gan Cynulliad Cymru ar y llifogydd felly fe benderfynwyd

gohirio'r cyfarfod. Fe ail drefnir dyddiad ar ôl i'r Cyngor Sir gysylltu i ddweud eu bod wedi derbyn yr adroddiad.

Nododd Wyn Bowen Harries ei fod wedi cael cyfarfod safle gyda 2 gynrychiolydd o'r Cyngor Sir i drafod cyflwr cwlfer ger Pant Y Gwair a hefyd y tir uwchlaw cartref preifat. Roedd cynrychiolwyr y Cyngor Sir wedi nodi mai eu cyfrifoldeb hwy oedd y cwlfer ond mai perchennog y tir uwchlaw y cartref preifat oedd yn gyfrifol am glirio'r safle yna. Adroddodd Kevin Williams fod y gwaith o glirio wedi cael ei wneud.

Mynegodd Y Cynghorydd Margaret Fernley ei hanfodlonrwydd nad oedd unrhyw waith wedi cael ei wneud ar y ffordd gefn o Llanllechid i Aber yn dilyn y llifogydd. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Cynghorydd Sir Dafydd Meurig i ofyn iddo ymholi i beth yw'r sefyllfa gydag amseriad atgyweirio'r ffordd.

Mynegwyd pryder hefyd am y twll yn y wal gyferbyn â Wern Bach ac fe benderfynwyd cysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ei drwsio.

Gohebiaeth
Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011 - 2026 : Derbyniwyd copïau o ddogfen ymgynghorol ac fe ddylid ymateb iddi erbyn Mehefin 23, 2013. Penderfynwyd i rai o'r cynghorwyr ddarllen y ddogfen a thrafod ei chynnwys yn y cyfarfod nesaf.

Ombwdsmon: Derbyniwyd llyfrynau er gwybodaeth- 'Eisiau cwyno am gorff cyhoeddus?' a 'Sut i gwyno'. Rhannwyd copïau i bob cynghorydd.

Marchnad Ogwen



Dyma Stondin Cegin Brysur a'i pherchennog Delyth Jeffreys

Mae gwneud cacennau yn rhywbeth sy'n mynd yn ôl i blentyndod Delyth pan oedd yn arfer cael helpu ei mam i wneud pob math o gacennau. Tua ugain mlynedd yn ôl, fe ddechreuodd Delyth wneud cacennau pen-blwydd ac ati i'w theulu a ffrindiau yn unig. Er mawr syndod iddi, llwyddodd i wneud cacen 'Jeep Action Man' i'w mab, a dyma benderfynu dysgu mwy am wahanol dechnegau o wneud modelau trwy bori mewn llyfrau ac ar y we.

Bum mlynedd yn ôl, penderfynodd ddechrau busnes yn gwerthu cacennau o'i chartref - cacennau at achlysuron arbennig megis priodasau. Felly, dyna ddechrau 'Cegin Brysur' ac ydi, fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae cegin Delyth wastad yn brysur.

Mae Delyth yn teimlo'n lwcus iawn gyda'r gefnogaeth a gaiff o bell ac agos. Mae wrth ei bodd yn eistedd i lawr i gynllunio cacen ar gyfer rhyw achlysur arbennig a gweld ymateb y cwsmeriaid pan maent yn agor eu bocs cacen - yn enwedig plant.

Mae Delyth yn gwerthu cacennau cartref megis sgons, fflapjacs, bisgedi, bara brith, cacennau sbwng ac yn y blaen yn fisol yn y Farchnad ers bron i ddwy flynedd bellach. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn ardderchog ac mae Delyth yn ddolchgar iawn i bawb sy'n prynu ei chynnyrch.

Yn Llais Ogwan mis Gorffennaf, cewch hanes gwniadwraig grefftus.

Mae'r Farchnad nesaf ar y 13eg o fis Gorffennaf. O'r dyddiad yma ymlaen, bydd Marchnad Ogwen yn newid cartref. Byddwn yn cyfarfod o 10 y bore tan 2 y pnawn ar yr ail Sadwrn o bob mis i mewn yn y Clwb Rygbi. Digon o le parcio a chroeso cynnes!

Mae gennym dair stondin newydd, Crefftau Sophie Parry, Crefftau Lelog, a Dylan's (o Borthaethwy ac yn gwerthu bara). Mae gwybodaeth am y Stondinau, a phopeth arall y byddwch angen ei wybod am Farchnad Ogwen, ar ein gwefan, www.marchnadogwen.co.uk

Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

Wrth chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer pwt ar waith y Gymdeithas ar gyfer y rhifyn hwn o'r Llais, dyma droi at grynoded Gwyn Jones (Gwyn Bont) o gofnodion y pwyllgor hyd at 1978. Yr hyn oedd yn taro rhywun yn syth oedd nad oes llawer wedi newid tros y blynyddoedd ac mai 'run math o faterion sy'n dal sylw'r pwyllgor heddiw: pethau fel stocio, cyflwr y cychod, prisiau trwyddedau, potsio, derbyn aelodau o du allan i'r dalgylch a chlirio'r llwybrau ar lan yr afon.

Cychwynwyd y Gymdeithas ar y 26ain o fis Mehefin 1933 gyda chytundeb rhwng Hugh Napier Baron Penrhyn a chriw o bysgotwyr lleol a oedd yn awyddus i godi lês ar y dyfroedd. Yn 1944 rhoddwyd caniatâd i filwyr a oedd adref ar 'leave' i bysgota am ddim ac etholwyd Mr Madog Jones i'r Pwyllgor 'to promote a friendly association with Bangorians'!

Erbyn heddiw drwgweithredu megis pysgota heb drwydded neu gyda mwy nag un enwair sydd yn poeni'r pwyllgor, ond yn 1949 y penderfyniad i wahardd aelod rhag pysgota ar ôl iddo gael ei ddal yn crwydro'r afon ar ddydd Sul gyda'r bwriad o ddal eog oedd un o'r prif faterion gerbron. Yn wir ni chaniatwyd pysgota ar y Sul nes 1969.

Mae llawer o'n hegni eleni yn mynd tuag at sicrhau stocio Llyn Ogwen, ond, nid peth newydd yw hyn. Yn 1954 rhoddwyd 20000 o fâg eogiaid a gwniadau islaw Rhaeadr Ogwen. Yn 1957 ymddengys fod 500 o frithyll Loch Leven wedi eu stocio yn Llyn Ogwen ac mae'n anodd credu fod Llyn Ogwen, Llyn Idwal a Ffynnon Lloer wedi cael eu stocio hefo Brithyll Trilliw yn 1958. Braf yw cael adrodd yma fod canmol cyffredinol wedi bod ar ansawdd stoc mis Mai eleni gyda nifer dda o bysgod o gwmpas y tri phwys wedi'u stocio.

Yn 1954 gwerthwyd dau gwch a phrynwyd un mwy yn eu lle ar gyfer Llyn Ogwen a dyma'r union fath o drafodaeth a gafwyd eleni. Y tymor hwn mae'r pysgota o'r cychod wedi bod o safon uchel a gallwch drefnu i logi cwch drwy ffonio Geraint Roberts ar 07879 668860.

Yn ôl y cofnodion roedd yn arferiad i'r Arglwydd Penrhyn ei hun gyflwyno'r gwobrau ar ddiwrnod cystadleuaeth Llyn Ogwen. Erbyn heddiw Bryn Evans ein hysgrifennydd diflino sy'n cael yr anrhydedd a dwi'n siŵr ei fod yn cyflawni'r rôl gyda'r un urddas! Ar Awst y 4ydd bydd y gystadleuaeth eleni yn Llyn Ogwen gydag adrannau Iau a Hŷn, pluen a phry' genwair. Cyn hynny ar y 7fed o Orffennaf cynhelir cystadleuaeth Llyn Idwal pan y bydd pysgota gyda phluen yn unig i ennill cwpan er cof am Eryl Jones, Bontuchaf.

Wrth gwrs, mae rhai pethau'n newid. Yn 1944 bu hysbysebu i lenwi swydd Cipar Afon rhan amser gan nodi'n glir na fyddai ceisiadau gan drigolion lleol yn cael eu hystyried. Diolch byth na fyddai'r fath gymal yn dderbyniol erbyn heddiw.

Yn ôl erthygl papur newydd roedd 16 Awst, 1948 yn ddiwrnod o lawenydd mawr yn y Dyffryn gyda niferoedd enfawr o wniadau yn cael eu dal ar li mawr yn yr afon. Yn ôl pob sôn fe fu i'r siopau gêr pysgota lleol redeg allan o fachau a phlwm cymaint oedd y cyffro a'r galw. Byddai'n braf iawn pe bai hanes yn ailadrodd ei hun eto eleni.

Pob lwc!
Gareth Evans

Bardd Buddugol

Gellir rhestru sawl bardd sydd wedi byw yn Nyffryn Ogwen dros y blynyddoedd ac ymfalchiwn yn ein dau Brifardd cyfoes – Ieuan Wyn a Gwynfor ab Ifor – heb anghofio chwaith am gyfraniadau Dafydd Morris bob mis yn Llais Ogwan nac am gerddi ambell fardd medrus arall sydd naill ai'n byw yn yr ardal o hyd neu sydd bellach yn byw y tu allan i'r Dyffryn.

Mae un bardd 'alltud' y dylid sôn yn arbennig amdano, sef John Ffrancon Griffith.

Yn Nhŷ'r Ysgol Glanogwen y ganwyd ac y magwyd John. Mae'n byw ers blynyddoedd yn Abergele, lle'r oedd yn Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Emrys ap Iwan ac wedyn yn Ysgol y Creuddyn, nes iddo ymddeol beth amser yn ôl. Mae wedi bod yn englyna ers tro byd ac wedi ennill mewn nifer o Eisteddfodau. Daeth ei fuddugoliaeth ddiweddaraf yn Eisteddfod fawr Teulu James Pantyfedwen ym Mhonrhydfendigaid ddechrau mis Mai, pan ddyfarnwyd iddo'r wobr gyntaf mewn dwy gystadleuaeth. Daeth yn gyntaf am gyfansoddi cyfres o 'Chwe Chwpled seiledig ar ddjarhebbion' ac, yn ogystal â hynny, cafodd y wobr gyntaf am ei englyn ar y testun 'Hysbyseb'. Dyma'r englyn hwnnw:

Â'i llygaid yn rhyw amneidio, a'i gwên
gynnil yn fy hudo,
draw yr af i weld ryw dro
y nwyddau mae'n eu haddo.

Wedi darllen yr englyn bach crefftus (ac awgrymog) hwn, ni allwn ond dyheu am gael gweld rhagor o waith John Ffrancon Griffith. 'Melys moes mwy', John!

J. Elwyn Hughes



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")
Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

**Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

**LONDIS
BETHESDA**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos**

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Teyrnged i Percy Parry

Yn ddiweddar bu farw Mr. Percy Parry, Erw Las, Bethesda. Roedd yn dod yn wreiddiol o Lasinfryn, a dyma ran o deyrnged iddo gan y Parch. Elwyn Jones.

Mae'n fraint cael talu teyrnged i un o'r bobl fwyaf cyfeillgar a chymdeithasol y dois i ar eu traws erioed, ac mae'n siŵr mai dyma un o'r rhesymau y clywes i Vera yn dweud droeon yn ystod y dyddiau ar ôl ei golli, ei bod wedi bod mor ffodus o gael treulio bywyd mor llawn gyda Percy. Bu'r ddau'n briod am bum deg chwech o flynyddoedd. Bu'r blynyddoedd yn rhai dedwydd, ar wahân i'r drychineb o golli eu mab, Keith. Bu honno'n ergyd galed i'r ddau ohonynt, ond bu'r berthynas yn ddigon cadarn i'r ddau allu cynnal ei gilydd yn eu colled.

'Bywyd llawn' oedd disgrifiad Vera o'i bywyd gyda Percy, ac yn sicr roedd bywyd Percy ei hun yn un go llawn. Cafodd ei eni a'i fagu yn ardal Pentir a Rhiwlas ac wedi dyddiau ysgol mynd i weithio yn Chwarel y Penrhyn. Roedd gan y chwarel le arbennig yn ei fywyd ar hyd ei oes. Yn ei flynyddoedd olaf, pan oedd wedi ei gyfyngu i'w gadair, mynnai gael gosod ei gadair o flaen y ffenestr yn yr ystafell ffrynt, fel y gallai weld draw at y Penrhyn. Wedi dechrau gweithio, symud wnaeth Percy wedyn, o le i le ac i wahanol fathau o waith. Mynd i weithio yn Nolgarrog, wedyn i Drawsfynydd, o'r fan honno i'r Wylfa ac wedyn newid llwyr – mynd yn borthor i'r Coleg Normal. Aros ym myd pobl ifanc wnaeth o wedyn am ddeng mlynedd wrth iddo ddysgu crefftau i fechgyn ifanc oedd, am wahanol resymau, heb fawr o barch tuag at fywyd na phobl. Wedyn yn y diwedd dod yn rhan o staff y tŷ yn y BBC ym Mangor.

Ble bynnag yr oedd Percy roedd yn boblogaidd; a hynny am nifer o resymau. Yn un peth, roedd yn un dyfeisgar a gallai droi ei law at bob math o grefftau. Roedd o hefyd yn ddyn dewr. Pan oedd yn un ar hugain oed cafodd ei lun mewn sawl papur dyddiol. Roedd o yn Nolgarrog pan ddigwyddodd y llifogydd a ddinistriodd sawl adeilad a sawl bywyd. Yn ystod y drychineb llithrodd un o'i gydweithwyr i'r llif, a heb aros i feddwl amdano ei hun dyma Percy ar ei ôl a llwyddo i'w achub o'r dŵr. Doedd o ddim yn gallu nofio ond i mewn ag o, heb oedi dim! Pan ofynnwyd iddo pam ei fod wedi mynd i'r dŵr ei ateb yn syml oedd "Beth arall allwn i ei wneud?" Roedd yn ddewr ac yn wylaidd yr un pryd, a doedd o ddim eisiau ffws. Yn wir, un hamddenol braf oedd Percy, byth yn cynhyrfu – 'laid back' mae'n siŵr, fyddai'r ymadrodd heddiw i'w ddisgrifio, ac roedd digon o hiwmor yn perthyn iddo.

Y direidi a'r wên honno a welais pan es i'w weld y tro cyntaf yn Ysbyty Eryri, a'r wên honno a arhosodd efo fo hyd at y diwedd, Does ryfedd bod gan y staff, ble bynnag yr âi o, a'i deulu gymaint o feddwl ohono. Roedd yn anrhydedd ei adnabod.

CHWILAIR MEHEFIN 2013
RHAGLENNI TELEDU DDOE A HEDDIW

A	A	W	H	F	R	I	E	J	L	C	M	B	C	V	B	H	X	J	U
I	S	V	S	H	E	I	R	M	C	G	V	M	H	M	D	W	H	U	Z
M	X	V	A	D	D	N	Y	Y	R	O	A	P	A	U	Q	U	S	O	
F	R	P	Y	A	Q	Z	S	D	A	N	E	G	R	H	C	U	M	W	N
O	Y	R	I	N	A	S	Y	I	M	N	Z	D	U	T	F	D	X	U	P
W	R	H	C	S	Q	D	H	I	O	W	A	E	A	H	O	Y	E	E	G
E	O	M	H	Y	D	E	D	P	T	N	T	R	C	F	B	B	C	U	U
J	P	L	T	L	M	F	I	V	V	D	A	C	O	B	B	D	F	R	F
O	G	J	V	W	I	I	I	R	R	X	I	S	M	N	N	H	T	T	O
S	K	O	P	E	W	R	C	M	C	K	C	B	I	W	N	O	R	C	X
V	R	Y	L	H	S	T	M	I	R	E	F	Y	O	A	J	I	D	Z	H
B	C	D	W	O	S	C	E	R	E	A	I	R	X	N	N	I	E	L	X
J	O	J	M	B	W	F	T	F	E	X	A	M	D	X	K	F	U	P	C
Q	N	Y	O	I	Y	L	A	F	E	D	R	Z	Q	R	O	N	C	T	D
G	E	W	S	D	L	O	Z	E	N	B	E	A	J	K	O	J	C	L	N
L	H	R	R	V	F	O	G	W	J	P	W	P	G	F	S	O	W	J	J
Q	U	A	L	F	S	V	O	T	X	E	U	G	A	H	S	L	Z	E	A
F	X	I	W	T	Z	R	H	K	G	W	Y	N	A	I	F	Y	D	V	A
G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	I	D	H	B	S	I	U	R	O
X	A	G	X	R	A	E	E	K	K	M	D	A	N	T	O	G	W	B	M

Y mis yma mae enw deuddeg o Raglenni Teledu Ddoe a Heddiw i'w darganfod.

Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH, ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at ddibenion y chwilaer dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.)

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW erbyn 6 Gorffennaf os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi dod o hyd i'r deuddeg, yna'r nifer agosaf fydd yn cael y wobr.

Diolch am atebion Mai. Yn anffodus roedd nifer fawr ohonoch wedi meddwl fod MIGNA yn enw ar fynydd ond CORN DU oedd yr un roeddwn wedi ei roi yn y chwilaer. Tybed faint ohonoch sydd wedi bod ar gopa rhai ohonynt? Dyma atebion Mai: Bera Bach, Cadair Bronwen, Corn Du, Crib y Ddysgl, Erw y Ddafad Ddu, Foel Grach, Gallt yr Ogof, Mynydd Mawr, Pen Llithrig y Wrach, Pen y Gadair, Tarren y Gesail, Y Wyddfa. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir. Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Glenys Clark, Tregarth; Steven Cross, Ffordd Ffrydlas Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Eirlys Edwards, Central Garage Bethesda; Mair Jones, Ffordd Bangor Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth. Enillydd Mai oedd Marilyn Jones 1 Glanffrydlas Bethesda.

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â
Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamsHY@parliament.uk

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau yn Nyffryn Ogwen rhwng 1836 a 1840

1836

- Dechrau gweithio Chwarel Dol-goch gan Robert Dafydd Parry o’r Pant a John Jones, Wern Afr.
- 30/09/1836: Geni George Sholto Douglas Pennant. Bu farw yn 1907.

1837

- Eisteddfod Parc Moch, dan nawdd Cymreigyddion Bethesda – yr eisteddfod gyntaf yn Nyffryn Ogwen, yng Nghapel Rehoboth, Parc Moch.
- Tachwedd 1837: Agor Capel Pen-y-groes, Tregarth, ‘fel cangen o’r Carneddi, a symudodd oddeutu 30 o’r aelodau yno’.
- Gwaith arsenic ar fynd ar lan Afon Ogwen yng Nghwm Dolawen gan gwmni o Saeson.
- Addolid yng Nghapel Salem (W), Caellwyngrydd. Cofiai Ernest Roberts ei adfeilion ar y chwith ym mhen draw’r stryd a gadwodd yr enw Stryd Salem. Symudwyd i Salem, Rachub, yn 1877.
- Y Parchedig John Elias yn dweud yng Nghapel Bethel, Môn: ‘Bobl, os dymunech chwi gael cynllun, cael patrwm o ganu da, canu â’r ysbryd ac â’r deall, ewch i Gapel Carneddi. Nid wyf yn disgwyl clywed gwell canu tu yma i’r nefoedd nag a glywais yng Nghapel y Carneddi yn Sir Gaernarfon’.
- Ffurio’r Independent Order of Oddfellows ym Methesda.

1838

- Tynnu Hen Gapel yr Achub i lawr, ‘ac adeiladwyd un helaethach o lawer yn ei le; a tŷ capel; ac fe adeiladwyd cyn hir Ysgol Frytanaidd, fel yr oedd yr holl draul yn £2120’.
- Ailadeiladwyd Capel y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanllechid (Peniel) ‘yn llawer helaethach, a rhoddwyd gallery arno ... yn ddigon i gynnwys dros 500 o bersonau’.
- Costiodd y gwaith £858-13s-1d.
- Geni’r bardd Benjamin Thomas, Tyn-Tŵr, awdur y gân boblogaidd ‘Moliannwn’, yn nhafarn yr Original Crown (neu’r Crown). Symudodd y teulu wedyn i Dŷ John Iorc yn Nhy’n Tŵr.

1839

- Codi Capel Carmel, Rachub.
- Sefydlu Cyfrinfa gyntaf yr Odyddion (Oddfellows) ym Methesda.

1839-1840

- 13 neu 14/02/1839 neu 1840: Geni Anna Walter Thomas (Morfudd Eryri), ugeinfed plentyn ei theulu, a’r ieuengaf, yn Barningham, Suffolk. Priododd y Parchedig David Walter Thomas, Ficer Eglwys St Ann ym mis Ebrill 1871. Dysgodd Gymraeg a daeth yn flaenllaw ym mywyd cyhoeddus Cymru. Yn 1884, daeth yn ail yn y rhestr (allan o 40) i gael y Gadair Ieithoedd Modern yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, a oedd newydd gael ei agor ym Mangor, ac mae’n debyg mai dim ond oherwydd ei bod yn ferch na chafodd ei phenodi.

1840-1850

- Rywdro yn y cyfnod hwn, daeth Tyddyn Isa (ar Sgwâr Rachub) yn dafarn dan yr enw ‘Bardsey Island’ (a drowyd yn ‘Rynys’ wedi hynny).

1840

- 1620 o bobl yn mynychu Ysgolion Sul yn y ddau blwyf.
- 12/03/1840: Marw’r seryddwr John William Thomas (Arfonwyson) yn 35 oed a’i gladdu ym mynwent St Alphage yn Greenwich.
- 17/12/1840: Marw George Hay Dawkins Pennant yn 77 oed. Roedd yn ŵyr i chwaer Richard Pennant, yr Arglwydd Penrhyn cyntaf. Ychwanegodd Pennant at ei enw pan olynodd Richard Pennant. Ef a adeiladodd y Castell yn Llandygái.
- Ychwanegwyd galeri at Gapel Pen-y-groes, Tregarth, ‘oherwydd cynydd y gynulleidfa’.

I’w barhau

Croesair Mehefin 2013

AR DRAWS

- 1 Mae Stan yn rhy feddw i fod yn un o’r dynion duwiol (4)
- 4 A oes gwell amser iddo ef i ddod rywsut, yn lle poeni a gofidio? (6)
- 7 Gweddillion y goelcerth (3)
- 9 Gwêr (4)
- 10 Props mewn drama (8)
- 11 “--- yn y Nen”, un o ganeuon enwog y Tebot Piws (3)
- 12 Hwyl a sbri (4)
- 13 Mae nhw’n cael neu yn rhoi digon (8)
- 16 Y tymor ffrwythlon ar ei brydferthaf (6,7)
- 19 Yr hyn ddigwyddodd i Saddam a Gaddafi (8)
- 23 Rhibidirês diystyr, er ei fod yn wir i Sais (4)
- 24 Gŵr yr arch a’r gwlybanaeth! (3)
- 25 Pennod i’r diddeall ddrysu a myfyrio uwch ei phen (8)
- 26 Amser y prysur bwyso, ‘Dydd y ----’ (4)
- 27 Un o anrhydeddau’r frenhines (1,1,1)
- 28 Mae mistar ar hwn hyd yn oed (6)
- 29 Tew ? Mae o’n “---- ei groen” (4)

I LAWR

- 2 Leanne Wood enillodd un Plaid Cymru fis Mawrth y llynedd (12)
- 3 Saer neu weithiwr coed (7)
- 4 Lladrata, yn enwedig yn y de (5)
- 5 Chwit-chwat a di-ddal (5)
- 6 Codi o un adran i adran uwch mewn peldroed (5)

- 8 Eisteddleodd cysegredig, caled ac anghyfforddus yn aml! (8,4)
- 14 Fel tyfiant newydd y gwanwyn (5)
- 15 Y tywydd pan mae’n gafael (3)
- 17 I’r Groegwyr hi oedd duwies y wawr (3)
- 18 Af efo Esyllt yn feddw i mewn iddi yn y tŷ (7)
- 20 Cyfrwng di-wifr (5)
- 21 Llythyr di-stamp? (1,4)
- 22 Syth a chywir (5)

ATEBION CROESAIR MAI

AR DRAWS

- 1 Digid, 4 Undeb, 8 Elw, 9 Hanner coron, 10 Undodwr, 12 Meini, 13 Llygadu, 14 Llymaid, 17 Maneg, 19 Ystadau, 21 Wythnos nesaf, 23 Wyr, 24 Fiola, 25 Osian

I LAWR

- 1 Dyheu, 2 Gwn, 3 Drewdod, 4 Unicorn, 5 Dirym, 6 Bendigaid, 7 Gwylliad, 11 Digynnwrf, 13 Llumanwr, 15 Yn tanio, 16 Llygota, 18 Gwthio, 20 Unfan, 22 Sgi

Os nad ydych yn dilyn peldroed neu rygbi efallai fod maddeuant am beidio cael ateb 13 I Lawr yn gywir. ‘Llumanwr’ yw’r gair a ddefnyddir yr oes hon gan y cyfryngau, ac nid ‘llinellwr’. Syrthiodd nifer ohonoch i’r trap. Wrth roi ‘llinellwr’ roedd yn amhosib i chi gael ateb 17 Ar Drows wedyn. Camgymeriad un neu ddau arall oedd yr ateb i 7 I Lawr. ‘Gwylliad’ sy’n gywir (fel yn ‘gwylliaid cochion Mawddwy’). Ystyr, hollol wahanol sydd i’r gair ‘gwichiad’ a gafwyd gan rai.

	1	2		3		4		5		6		7
8												
9										10		
11				12		13						
14		15		16				17		18		
19				20						21		
22				23		24						
25						26						

Dyma enwau’r rhai anfonodd atebion hollol gywir, gyda channoliaeth :

Gareth W. Jones, Bow Street; Ellen Whitehouse, Birmingham; Heulwen Evans, Dilys Parry, Rhiwlas; John a Meirwen Hughes, Abergele; E.E. Roberts, Llanberis; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elfed Evans, Karen Williams, Llanllechid.

Ond ar y brig y mis hwn y mae ymgais Ann Ifans, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE, ac iddi hi yr aiff y wobr gyda’n llongyfarchiadau.

Atebion erbyn dydd Mercher, 3 Gorffennaf i ‘Croesair Mai’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mai, aeth llawer o aelodau i Gaernarfon i ddewis yr ymgeisydd Llafur ar gyfer etholiad San Steffan yn 2015. Alun Pugh (yr ymgeisydd Llafur yn 2010) gafodd ei ddewis ac atgoffwyd yr aelodau iddo ostwng mwyafrif Plaid Cymru i 1500 ar adeg a oedd yn anffafriol i'r Blaid Lafur yn gyffredinol.

Ganol y mis aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn y Rhyl i drafod materion gwleidyddol efo Sandy Mewies (Aelod Cynulliad Cymru) a David Hanson (Aelod Seneddol). Er enghraifft, clywyd fod toriadau ariannol y Torïaid yn ddwywaith cymaint â chynlluniau'r Blaid Lafur, a bod Llywodraeth Cymru'n anelu at greu 7500 o dai fforddiadwy newydd erbyn 2016.

Tua diwedd y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol, gan dderbyn adroddiadau am Gyngor Gwynedd, er enghraifft pleidleisio electronig yn dechrau yn y siambr a'r grŵp Llafur am adnewyddu'r trefniant efo grŵp Plaid Cymru. Hefyd derbyniwyd adroddiadau o'r cynghorau cymunedol (er enghraifft Cyngor Bethesda'n cytuno i fod yn gyfrifol am Lys Dafydd a'r cais cynllunio dadleuol i adeiladu 69 o dai ger croesffordd Coetmor).

Y cyfarfod nesaf yw'r cyfarfod blynyddol am 7.30pm ar y bedwaredd nos Fercher ym mis Mehefin (y 26ain) yng nghanolfan Cefnfaes.

Clwb Cinio a Phrynhawn Ysgol Abercaseg

Arweinydd Clwb Cinio/Prynhawn

Mae angen Arweinydd i glwb cinio a phrynhawn Ysgol Abercaseg

Dyddiad Cychwyn - Medi 2013

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd lwyddiannus feddu ar Lefel 3/5 mewn gofal plant

Oriau - 11 am i 3pm (Llun i Gwener)

Mae'n rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer y swydd

Am fanylion pellach ffoniwch 0781000415 neu ebostiwch wendy.evans1@hotmail.co.uk

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick

11.00 – 12.00

Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda

20.00 – 21.00

Trydydd Nos Lun pob mis

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Cangen Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd noson o adloniant gyda Tammy Jones yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda ar Fai 18. A dyna beth oedd noson o hwyl. Daeth nifer draw i wrando ar Tammy ac roedd hi'n hynod o falch cael canu yn ôl yn ei chynefin wedi blynyddoedd o ganu ledled y byd, ac wrth gwrs mae'n dal i gael ei galw'n aml i wahanol fannau ym Mhrydain.

Roedd ei llais yn glir fel cloch a'i hiwmor yn treiddio drwy'r perfformiad. Cafodd ambell un ymuno â hi ar y llwyfan hyd yn oed. Noson arbennig o dda gyda bwffe blasus iawn. Gwnaethpwyd raffl gyda'r elw o £125 yn mynd i Gyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol nos Fawrth olaf mis Mai gyda Paul Rowlinson yn y gadair. Derbyniwyd y newyddion gyda pheth tristwch nad yw Alun Ffred A.C. yn bwriadu sefyll yn yr Etholiad Cynulliad nesaf gan ei fod wedi gwasanaethu'r ardal yn hynod o dda ac effeithiol, a gwyddom y bydd yn gwneud hynny am y tair blynedd sydd yn weddill.

Cafwyd trafodaeth helaeth iawn ar lythyr a anfonwyd gan John Llywelyn Williams yn gofyn a fuasem yn anfon fel cangen at y swyddfa gynllunio a phobl briodol eraill i wrthwynebu'r cais sydd wedi ei wneud i adeiladu 69 o dai yng Nghoetmor. Cafwyd trafodaeth faith a phenderfynwyd anfon llythyr yn nodi pwyntiau pam ein bod fel cangen yn gwrthwynebu'r cais.

Trafodwyd hefyd y modd mae ceisiadau yn mynd i'r Cyngor Sir yn ceisio ehangu amser agor parciau gwyliau/carafanau o 10 mis i flwyddyn gyfan. Buasai goblygiadau hyn yn galluogi pobl wedyn i fyw heb dalu trethi am y flwyddyn. Byddwn yn cadw llygad ar y datblygiadau.

Bu Dafydd Owen a Rhys Llwyd o Gyngor Cymuned Llandygai yn ymweld â safle yng Ngherrig Llwydion gyda chynrhychiolydd o'r Bwrdd Dŵr i geisio datrys problem carthffosiaeth sydd yno. Braf yw cael dweud bod y Wifren Wib wedi cyflogi nifer o'r ardal. Gofynnwn iddynt a fuasai'n bosib iddynt ddefnyddio'r geiriau Wifren Wib ar eu mynegbyst gan eu llongyfarch hefyd ar eu menter.

Cystadienaeth - Bie aeth y bag bellaf?

Gwobr—
gwerth £5
o
nwyddau
Crefftau
Howget

Ers yr hysbyseb yn Llais Ogwan—Mis Mai—mae'r bagiau wedi mynd i bob ban byd. Oes ganddoch chi lun o'r bag mewn rhywle pell? Lluniau erbyn Llais Ogwan Mis Medi .

Anfonwch i :- Crefftau Howget 2 Bron Arfon, Rachub ,

cardiauhowget@hotmail.com

Crefftau Howget

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk

YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

600723

Ffacs: 605068

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

**Hysbysebwnch
yn y Llais
600853**

"J.R."

SGAFFALDWYR

**Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda**

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

600633

(symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyflwyno Proffil Personol

Ddydd Gwener, 24ain o Fai, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn iddynt sefyll eu harholiadau a gadael yr ysgol. Braff oedd croesawu'r Heddwas Dewi Thomas fel gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach ers blyneddau i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod - roedd pob un yn hynod o smart! Cafwyd cyfansoddiad cerddorol gwreiddiol o 'Latin Festival' gan Lowri Evans ac unawd gan Catrin Griffiths, 'Breuddwydio Wnes' allan o 'Les Miserables'. Braff iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



Glesni Jones, Dion Jones a Cerian Jones o flwyddyn 11

Bocsio – Cystadleuaeth Pedair Gwlad

Bu Sonny Riley, blwyddyn 7 yn cynrychioli Cymru yn y rownd gyn-derynol yn Motherwell yn ddiweddar. Ennillodd y fedal efydd yng nghategori dan 12 yn ôl ei bwysau. Da iawn chdi Sonny.

GWEITHGAREDDAU ADRAN Y GYMRAEG

Bwletin Ysgolion y BBC 2013

Ar yr ugeinfed o Fawrth trawsnewidiwyd adran y Gymraeg yn ganolfan newyddion ar gyfer Diwrnod Bwletin Ysgolion y BBC. Bu criw gweithgar o flwyddyn 8 yn paratoi'n ddiwyd yn ystod y bore yn trefnu'r rhaglen ac yn casglu'r straeon, a darlledwyd y bwletin yn fyw i'r genedl ar y we am 2 o'r gloch y prynhawn. Roeddem yn cydweithio a chasglu newyddion ar y cyd efo Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Syr Hugh Owen a datblygiadau diwedddara'r diwrnod yn yr ysgolion hynny'n cael eu ffrydio ar ein gwefan yn gyson yn ystod y dydd. Yn ystod yr wythnosau cynt buom yn brysur yn trin a thrafod pa straeon y byddai'n bosib gohebu arny'n nhw ar y diwrnod a gwnaethpwyd sawl galwad ffôn a holi a stilio er mwyn trefnu cyfweiliadau a chasglu gwybodaeth. Ar ôl cryn drafod fel tîm golygyddol penderfynwyd mai ein prif stori fyddai agoriad Gwifren Zip Eryri ym Methesda a daeth y cynghorydd Gwen Griffith i'r ysgol i gael ei chyfweld.

Roedd rhai ohonom yn sôn am broblemau parcio yn y Gerlan a bu eraill yn sôn am y clybiau ieuenctid ym Methesda a'r gweithgareddau gwahanol yn cael eu cynnal yno. Cafodd Mr Speddy, technegydd cyfrifiaduron yr ysgol ei gyfweld fel rheolwr clwb ieuenctid ym Methesda. Stori arall a drafodwyd oedd y côr yn mynd i Disneyland Paris, ym mis Mawrth, a chafodd Pennaeth yr adran gerdd, Mr Hefin Evans ei gyfweld i gael yr holl hanes. Cafwyd gohebiaeth o gig Vintage Magpie a Gai Toms yn Neuadd Ogwen a bu Buddug yn cyfweld Elin Cain am gynlluniau'r band yn y dyfodol agos.

Roedd cael bod yn rhan o'r bwletin newyddion ysgolion yn brofiad gwych. Roedd yr holl broses o baratoi a chael darlledu'n fyw ar y we yn brofiad ardderchog.

Gallwch wyllo ein bwletin newyddion ar sianel youtube yr ysgol: www.youtube.com/ysgoldyffrynogwen

Elen Wyn a Martha Evans



Gorsaf Radio Ysgol Dyffryn Ogwen

Mae hi wedi bod yn dymor prysur iawn i ohebwyr yr ysgol. Cytunodd sawl gwestai dewr i gael ei holi ar ein gorsaf radio, yn eu plith Mr Arwyn Oliver, Mr Huw John Hughes, Mr Neville Hughes a Dr John Elwyn Hughes.

Ddydd Gwener cyn gwyliau'r Pasg cafodd ein gohebwyr y cyfle i holi Mr Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg presennol yn y Cynulliad. Bu'r disgyblion yn ei holi am fanteision a pheryglon defnyddio technoleg a rhwydweithiau cymdeithasol yn yr ystafell ddosbarth. Mae posib gwrandao ar y sgwrs hon ar ein sianel youtube ni fel ysgol sef www.youtube.com/ysgoldyffrynogwen

Diolch i'r gwesteion i gyd am eu sgysiau difyr!

Gweithdy Barddoniaeth Pontio

Ar yr ugeinfed o Fai, cafodd blwyddyn 8 gyfle i fod yn rhan o weithdy barddoniaeth Pontio, y ganolfan gelfyddydol newydd fydd yn agor ar safle'r brifysgol ym Mangor yn 2014.

Daeth y Prifardd Gerwyn Williams atom i'n dysgu ni sut i greu cerddi diddorol. Cawsom gyfle i feddwl am syniadau ar gyfer cerdd ddyfalu yn seiliedig ar ganolfan Pontio.

Bu'r profiad yn un da iawn i ni fel blwyddyn ac edrychwn ymlaen at gael darllen ein cynnyrch gorffenedig gan y Prifardd Gerwyn Williams.

Buddug a Sophie (Blwyddyn 8)

Ymweliad â Charchar Kilmainham, Dulyn



Mentrodd myfyrwyr blwyddyn 12 ac 13 draw i'r Ynys Werdd er mwyn ymweld â charchar Kilmainham, Dulyn. Fel rhan o'u cwrs Uwch Gyfrannol yn y Gymraeg mae'r myfyrwyr yn astudio'r gerdd 'Y Cymwynaswr' gan y Prifardd Ceri Wyn Jones. Yn y gerdd hon mae'r bardd yn sôn am ei ymweliad â charchar Kilmainham.

Carchar gwleidyddol oedd hwn, ac yn fwyaf enwog fel carchar i wrthryfelwyr Gwrthryfel y Pasg yn Nulyn yn 1916, pan feddiannodd y gwrthryfelwyr y Swyddfa Bost yn Nulyn yn ogystal ag adeiladau eraill yn y ddinas.

Bwriad yr ymweliad oedd ceisio uniaethu â theimladau'r bardd yn ystod ei ymweliad â'r carchar yn ogystal â dysgu mwy am yr hanes trist. Cafwyd cyfle hefyd i ymweld â'r ardd goffa i'r gwrthryfelwyr a gweld olion y bwledi ar bileri'r Swyddfa Bost enwog yng nghanol Dulyn.

Gwobr am Ysgrifennu

Llongyfarchiadau i Esme Crowe o Ysgol Dyffryn Ogwen ar ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth ysgrifennu Rhyddiaith i flwyddyn 7 yn Eisteddfod yr Urdd. Dyma’r stori:

Fy hoff encil

Wel, mae’r rhaglen deledu yna wedi dod ag atgofion yn ôl – y ferch ifanc yn ei hoff encil. Roedd gen i hoff encil pan oeddwn i’n ifanc hefyd. Dwi’n dal i gofio tôn llais fy Mam pan ddywedodd “Fe fydd fel gwyliau a byddwch yn ôl yma erbyn y Nadolig.”

Dwi’n cofio gofyn i fy Mam dro ar ôl tro lle oeddwn i’n mynd. Wrth gwrs, doedd hi ddim yn gwybod, ddim mwy nag oeddwn i.

Wrth i mi ddilyn yr athrawon a’r faciws eraill allan o’r iard a lawr y lôn tuag at yr orsaf drên, sylwais ar Mam yn sefyll yng nghanol y mamau eraill. Chwifiais arni. Ond welodd hi ddim mohonof fi yng nghanol yr holl blant. Torrodd hynny fy nghanol i, yn enwedig ar adeg mor anodd wrth adael teulu, ffrindiau ac ardal leol.

Roedd fy nghartref newydd yn wahanol iawn i fy nghartref yn Llundain. Roeddwn i wedi arfer gyda adeiladau uchel, sŵn ceir a phobl ym mhobman, lonydd llydan a bysus dau lawr coch. Roedd fan hyn yn dawel, heddychlon a llonydd. Blodau, coed ac adar bach yn trydar. Lonydd cul, nadreddog gyda beicwyr, cerddwyr ac ambell yrrwr, bythynnod a thai bach twt. Siopa cartref fel becws, post a chigydd; ardal llawn prydferthwch.

Fy hoff encil i oedd gyda’r moch ar Fferm Bont Uchaf. Fy noddfa yn ystod y chwe blynedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Doeddwn i erioed wedi gweld anifail bach pinc, gyda phedair coes a chynffon cyrliog o’r blaen. Ond, wir i chwi roedd rhain fel ffrindiau neu hyd yn oed yn well. Roeddwn yn eistedd am oriau yn fy hoff encil ac yn meddwl am bopeth o dan yr haul. Meddyliwn yn aml am y daith trên hir a diflas. Dwi’n cofio meddwl pa mor fudr oedd y trên. Doedd dim hyd yn oed toiledau arno, ac roedd hynny yn dipyn o beth i hogan fach fel fi. Hwn oedd y tro olaf hefyd i mi weld fy mrawd a’ m chwaer am chwe blynedd. Yn aml, dechreuwn grio wrth gofio amdanynt. Roeddwn yn poeni a meddwl am lle oeddent wedi mynd? Oeddent hwy’n fyw? Oeddent hwy’n hapus? Be oeddent yn ei wneud?

Roedd fy amser ym mhentref Glanffynnon yn hapus iawn. Roeddwn yn saff yno. Yn saff oddi wrth yr holl beryglon a bygythiadau’r bomio. Roeddwn i’n lwcus iawn hefyd oherwydd roedd gan y teulu hen lyfrau eu plant, ac felly roedd gen i ddigon i ddarllen er bod llyfrau yn brin yn ystod y rhyfel. Roedd ambell un diddorol ond fy ffefryn i oedd Trip i’r Lleuad. Roedd yn swnio’n hollol hurt gan nad oeddwn i byth yn meddwl y byddai person yn cyrraedd y lleuad. Er hynny, yn nes ymlaen yn fy oes i, fe ddigwyddodd hyn! Eisteddais gyda’r moch am oriau yn darllen iddynt, er nad oeddent ddim callach!

Roedd llwythi o ddyletswyddau gen i ar y fferm. Roeddwn yn bwydo’r ieir, garddio ac ati; cadw fy hun yn brysur! Dwi’n siŵr bod hyn wedi fy helpu i setlo ac i fwynhau fy hun ychydig. Tyfais yn agos i’r gŵr a’r wraig oedd yn byw ar y fferm, heb anghofio’r anifeiliaid oll, yn enwedig fy hoff fochyn, Jimeima Jen!

Pan ddaeth yr alwad bod y rhyfel drosodd ac ein bod yn gorfod mynd adref, roeddwn i’n emosiynol oherwydd roeddwn wedi gwneud ffrindiau ac yn mwynhau fy hun yno. Pan gyrhaeddais yn ôl i Lundain, nid oedd yn teimlo fel adref. Roedd adeiladau wedi eu chwalu a’r holl awyrgylch wedi newid. Doedd fan hyn ddim yn gartref mwyach a threuliais lawer o amser yn meddwl ac yn hel atgofion am fy hoff encil, gyda’r moch ar Fferm Bont Uchaf. Bûm i’n hir iawn yn ymgartrefu nôl yn Llundain a hyd heddiw dwi’n dal i hiraethu am gael bod yn ôl gyda Jimeima a’i chriw ar Fferm Bont Uchaf.

Esme Crowe

Ysgol Tregarth

Croeso

Dymunai’r ysgol estyn croeso cynnes i Miss Caryl Jones, athrawes newydd fydd yng ngofal Dosbarth Llywelyn hyd at yr haf. Croeso cynnes hefyd i Mrs Shirley Hartleb, ein cogyddes newydd ers y Pasg.

Siarter Iaith Gwynedd

Croesawyd Ms Enlli Thomas a Dr Gwyn Lewis i’r ysgol yn ddiweddar i drafod strategaethau’r ysgol i hyrwyddo’r defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg ymysg disgyblion yr ysgol. Mae’r ysgol yn ysgol beilot i Gynllun Siarter Iaith Gwynedd ac wedi cyfrannu i adroddiad y Brifysgol.

Coedwig Law

Cafodd Dosbarthiadau Dafydd a Llywelyn gyflwyniad bywiog iawn am goedwigoedd glaw gan Esyllt Eco-sgolion yn ddiweddar fel rhan o’u gwaith ar Saint Lucia. Dysgodd y disgyblion lawer o ffeithiau diddorol am blanhigion ac anifeiliaid y goedwig law ac am y bygythiad parhaus sydd iddi gan gwmnïau mawr y byd wrth ei thorri i lawr. Mae plant y ddau ddosbarth wedi bod yn brysur iawn yn casglu ffeithiau eu hunain er mwyn cyflwyno cywaith byr.

Paid Cyffwrdd, Dweud

Cawsom gyfle i dderbyn negeseuon pwysig am ddiogelwch personol mewn ffordd hwyliog drwy’r sioe ‘Paid cyffwrdd dweud’. Digon o chwerthin a dysgu yr un pryd!

Cymru Cŵl

Fel rhan o weithgareddau wythnos ‘Cymru Cŵl’ cawsom ymweliad gan yr arwr pêl-droed Malcolm Allen. Siaradodd yn fywiog a diddorol am ei fywyd yn tyfu yn Neiniolen ac yn chwaraewr proffesiynol. Gwirionodd y plant pan oedd yn sôn am rai y bu’n cyd-chwarae a hwy yn nhîm Cymru, fel Ian Rush a Ryan Giggs. Pwysleisiodd ei falchder o fod yn Gymro a’r wefr a gâi wrth ganu’r anthem a chynrychioli ei wlad. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd o weithio’n galed os am lwyddo yn unrhyw faes, ac i ddilyn eu breuddwyd beth bynnag y bo! Cyn gadael cafodd pob plentyn yn yr adran Iau gyfle i drio sgorio’n ei erbyn yn y gôl.



Malcolm Allen efo’r plant

Trip i Sŵ Bae Colwyn

Fel rhan o’u gwaith ar thema ‘Sypreis Handa’ aeth Dosbarth Idwal i Sŵ Bae Colwyn i weld rhai o’r anifeiliaid sydd yn y stori honno. Cafodd y plant fodd i fyw yn gweld y gwahanol anifeiliaid a chawsom hwyl yn gwylio’r pengwiniad a’r mwncïod yn cael eu bwydo. Roedd chwarae yn y parc a gwario yn y siop yn hwyl hefyd wrth gwrs!

Amgueddfa Forwrol Lerpwl

Fel rhan o waith thema ‘Teithio’ y tymor yma cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 (dosbarth Ogwen) gyfle arbennig i ymweld â’r Amgueddfa Forwrol yn Lerpwl. Cafodd y disgyblion brofiadau gwerthfawr iawn yn ystod y dydd. Roedd y disgyblion i gyd wrth eu boddau yn dysgu am fywyd ar long yn y 19eg ganrif. Profiad gwych!

Rhaffau ac Ysgolion



Cafodd Dosbarth Ffrydlas fore cynhyrfus iawn gyda’u hymweliad â ‘Ropes and Ladders’ Llanberis. Cafwyd cyfle i brofi eu nerfau a’u dewrder a da yw dweud y gwnaeth pawb ei orau glas. Bydd ambell un yn awyddus iawn i ymweld eto’n fuan!

Gweithdy barddoni

Cafodd y plant hynaf gyfle arbennig i gymryd rhan mewn gweithdy barddoni dan ofal Martin Dawes yr 'Young People's Laureate Wales' (swydd sy’n cyfateb i Fardd Plant Cymru trwy gyfrwng y Saesneg). Mae Martin, sy’n byw yng Nghoed y Parc, ar hyn o bryd yn cydweithio ar brosiect cyffrous gydag Aneirin Karadog, Bardd Plant Cymru.

Mae’r ddau ohonynt yn crwydro ysgolion ledled Cymru yn annog pobl ifanc i ystyried beth mae Cymru yn ei olygu iddyn nhw ac i ddatgan sut Gymru maent eisiau byw ynddi yn y dyfodol. Roedd hi’n amlwg fod Martin yn hynod falch o gael treulio amser gyda phlant ei filltir sgwâr a bu’n annog Dosbarth Ogwen i gyfrannu gair, llinell neu bennill a’u recordio yn eu hadrodd. Y bwriad yw casglu’r holl syniadau at ei gilydd i greu Maniffesto ar ran Pobl Ifanc Cymru. Cyflwynir ffrwyth eu llafur i Lywodraeth Cymru ar Fehefin 19eg (a bydd hefyd yn bosibl gwrandao ar y gwaith ar wefan www.youngpeopleslaureate.org).

Gwasanaeth Tân

Cafwyd cyflwyniad bywiog gan y Gwasanaeth Tân ar ddiogelwch tân yn y cartref. Dysgodd pawb am bwysigrwydd larwm dân yn y cartref ac am waith y Frigad Dân.

Ysgol Llanllechid

Cydymdeimlo

Daeth profedigaethau i ran cyn-ddisgyblion: anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at deulu Sara a Darren Williams ar golli eu tad yn ddiweddar mewn damwain. Cydymdeimlwn hefyd â theulu Liam Twigge. Bu farw ei dad, William Twigge yn ystod mis Mai. Cofion cynnes at y ddau deulu.

Profiad Gwaith

Llawer o ddiolch i Ms Emma a Ms Lorraine am dreulio cyfnod hefo ni yn yr ysgol ar brofiad gwaith yn y dosbarth Meithrin. Bu'n braf iawn cael eich cwmni a diolch i chi am fod mor barod i'n helpu mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Athro Llanw

Llawer o ddiolch i Mr Rheon Jones am dreulio cyfnod gyda ni yma yn yr Adran Cyfnod Sylfaen. Bu'n braf croesawu Rheon (cyn-ddisgybl) yn ôl atom a diolch iddo am ysbrydoli'r disgyblion gyda'i waith. Pob dymuniad da yn y swydd newydd yn Ysgol Maelgwn.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Benfro



Llongyfarchiadau mawr i Beca Nia ar ennill y trydydd safle yn chwarae'r obo. Roedd yn fendigedig gweld Beca yn perfformio mor swynol a diolch i Mrs Jane Parry am ei hyfforddi ac i Ms Sian Jones hefyd. Ym maes Celf a Chrefft daeth Idwal ac Ithel Temple Morris i'r brig – llongyfarchiadau gwresog i chwithau!

Glan-llyn

Eleni aeth 22 o ddisgyblion blwyddyn 5 i wersyll Glan-llyn yng nghwmni Mr Huw Edward Jones, Miss Angharad a Miss Awen. Cafodd y disgyblion lu o brofiadau cofiadwy yn cynnwys y cwrs rhaffau, dringo wal ac adeiladu rafft.

Roedd y mwyafrif yn drist o adael Glan-llyn ond eto yn edrych ymlaen at weld eu teuluoedd ar ôl dwy noson oddi cartref. Ac unwaith eto roedd y bwyd yn fendigedig!



Plant Blwyddyn 5 yng Ngwersyll Glan-llyn.

Taith Blwyddyn Un

Fel rhan o'r gwaith thema, aeth dosbarth Mrs Bethan Jones a Mrs Nerys Tegid ar ymweliad â Gorsaf Bad Achub Biwmares a Moelfre. Gwelwyd Bad Achub Biwmares yn cael ei lansio a gwnaeth y morwyr gylch yn y dŵr i gyfarch y plant cyn mynd ar alwad! Cafwyd sgwrs ddiddorol am ddiogelwch yn y dŵr a bu pawb wrthi'n casglu crancod, cregyn a gwymon. Cafwyd cyfle i badlo yn y môr a mwynhau'r picnic a'r lolis iâ!

Y Tuduriaid ac Achos Llys Anne Boleyn

Wedi dysgu am Cochwillan a Phlas Mawr Conwy, bu disgyblion blwyddyn 5 yn rhoi sylw penodol i fywyd Harri VIII a'i ail wraig Anne Boleyn. Aethant ati i gynnal achos llys i weld a oedd Anne yn euog neu'n ddi-euog o fod yn anffyddlon i'r brenin. Daeth y plant yn gyfarwydd â threfn llys barn gan ddysgu am dermau megis erlyniad, rheithgor, barnwr a chyfreithwyr. Roedd rhai o'r plant yn actio'r prif gymeriadau. Roedd Harri wedi ymgynghori gyda'r erlyniad ac Anne wedi cael cyngor gan ei thîm o gyfreithwyr. Ar ôl cwestiynu gan yr erlyniad a'r amddiffyn aeth y rheithgor ati i drafod eu penderfyniad, gan ddod i'r casgliad fod Anne yn ddi-euog! Tybed sut fuasai hanes wedi bod yn wahanol petai'r un dyfarniad wedi digwydd 500 mlynedd yn ôl?!

Cyngor Ysgol

Cafodd y Cyngor Ysgol a chynrychiolaeth o'r Corff Llywodraethol gyfarfod i drafod Siarter Iaith Gwynedd a'r Ysgol Iach. Roedd gan ddisgyblion y Cyngor nifer o syniadau da ac roedd yn bleser clywed criw mor ifanc yn gallu trafod mor aeddfed.

Clwb Menter, Hanner Marathon ac Elusen

Ni fydd ardal Rachub yn brin o fentergarwch yn y blynyddoedd i ddod, a barnu o'r dyfeisgarwch a'r dyfalbarhad a welir yn y Clwb Menter. Mae'r gweithgareddau eang yn cynnwys gwerthu hysbysebion, plannu blodau i'w gwerthu, creu nwyddau drwy wñio neu fodelu, a chynhyrchu cardiau arbennig. Bwriad y Clwb yw meithrin sgiliau ac ymagwedd o fentergarwch gyda'r gobaith y bydd rhai o'r disgyblion yn magu digon o hyder i ddechrau eu busnesau eu hunain yn y dyfodol neu'n defnyddio'u sgiliau codi arian er budd y gymuned neu elusennau.

Esiamlpl wych o greu elw ar gyfer achos da oedd y ffair a drefnwyd gan y Clwb Menter a phawb ym Mlwyddyn 6 i godi arian at apêl 'Northern Lights'. Dewiswyd yr elusen, sy'n rhoi ysbaid o wyliau i blant sy'n ddifrifol sâl, oherwydd bod dau athro (Mr Huw Jones a Mr Stephen Jones) yn rhedeg hanner marathon i gefnogi'r achos. Penderfynodd y Clwb Menter y buasai ganddynt y sgiliau a'r brwdfrydedd i gefnogi'r ymgyrch codi arian. Buddsoddodd y Clwb £10.49 ar gyfer gwobrau, gan wneud i'w harian ymestyn yn llawer pellach wrth ddanfôn llythyr o apêl at y rhieni yn gofyn am gymorth gyda nwyddau, ffrwythau, teisennau a.y.b. yn ogystal ag ychydig o arian i'w plant wario yn y ffair. Cafwyd diwrnod gwych. A'r elw - wel, enillwyd dros £440 i'r elusen! Ardderchog, wir!

Ysgol Llandygái

Codi Ymwybyddiaeth

Daeth Rhian Jones i'r ysgol yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth disgyblion Dosbarth Tirion o waith a phwrpas y ddwy elusen - NSPCC a Childline Cymru. Diolch iddi am gyflwyniad diddorol oedd yn rhoi cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau sydd yn mynd i alluogi gwell dealltwriaeth o waith y ddwy elusen.

Ymweliad PC Dewi Tomos

Pwrpas ymweliad PC Tomos y tro yma oedd trafod rheolau a'u pwrpas, a hynny'n adolygu pa ymddygiad sydd yn dderbyniol ac yn annerbyniol yn y gymdeithas. Diolch yn fawr iddo.

Llandygái ers Talwm

Daeth Mr Richard Llwyd at ddosbarth Awel i ddweud ei hanes fel plentyn ym mhentref Llandygái yn y 60au. Cawsom gyflwyniad byrlymus fel arfer ganddo, a hynny'n ennyn gwrandawriad astud gan y disgyblion. Diolch iddo am ei amser a'i gefnogaeth barod.

Gwasanaeth Arbennig

Ymunodd yr Hybarch Paul Davies gyda disgyblion yr Adran Iau i addoli yn y gwasanaeth wythnosol o dan arweiniad Y Parchedig John Matthews. Braf oedd cael ei groesawu atom i'r ysgol.



Prifardd yn ein plith

Bu Dosbarth Hedd yn hynod o ffodus o gael treulio bore yng nghwmni'r Prifardd Tudur Dylan Jones yn ddiweddar. Cafwyd sgwrs ganddo am adeilad newydd 'Pontio' sy'n cael ei adeiladu ym Mangor, yn sgil yr hen Theatr Gwynedd. Aethpwyd ati i greu darn o farddoniaeth dosbarth yn seiliedig ar y thema PONTIO. Bydd y gerdd yn cael ei harddangos yn siop 'Pontio' sydd ar y Stryd Fawr ym Mangor yn fuan.

Ysgol Bodfeurig

Ymddangosodd newyddion Ysgol Bodfeurig yng ngholofn Ysgol Abercaseg yn rhifyn Mai o'r Llais. Ymddiheurwn am hynny. Ni dderbyniwyd newyddion Ysgol Bodfeurig y mis hwn.

Ysgol Abercaseg

Sioe ‘GWYN’



Yn ddiweddar cafodd yr holl blant eu cyfareddu wrth wyllo sioe wych ‘Gwyn’ gan Gwmni'r Frân Wen, sef cyfeithiad o ‘White’ gan Andy Manley. Bu i bawb ymweld â byd gwyn a pherffaith Titrwm a Tatrwm. Ond un diwrnod dechreuodd pethau newid! Ymddangosodd lliw am y tro cyntaf ym myd y ddau ffrind! Roedd wynebâu'r plantos yn werth eu gweld wrth iddynt ymgolli'n llwyr yn y stori! Yn awr mae pawb yn aros yn eiddgar i gymryd rhan yn y gweithdy drama fydd yn cael ei gynnal gan Gwmni'r Frân Wen yn yr ysgol yn fuan.

Gweithgaredd Noddedig



Rhai da yw plant Ysgol Abercaseg am feddwl am bobl eraill. O ganlyniad i weld pawb yn mwynhau eu hunain ar y llwybr antur newydd daeth y Sgwad Syniadau i fyny gyda syniad gwych i godi arian. Cafodd holl blant yr ysgol eu noddi i fynd ar hyd y llwybr antur gymaint o weithiau â phosibl mewn pymtheg munud. Roedd hanner yr arian noddedig yn mynd i brynu gemau newydd ar gyfer hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion a'r hanner arall yn mynd i'r ward yn ysbyty Eryri sy'n gofalu am daid Joshua, Grace a Megan a nain Elen. Da iawn chi, blant.

Un, deux, trois...

“J’habite à Bethesda”, “merci” a “bonjour” - dyma rai o'r geiriau a oedd i'w clywed yn yr ysgol ar Fehefin 7fed. Am ddiwrnod yn unig, ac yn benllanw ar weithgareddau'r Clwb Ffrangeg, bu i Ysgol Abercaseg droi'n ‘Ecole Abercaseg’ wrth i ni gynnal diwrnod Ffrengig. Gwisgodd nifer fawr o'r plant mewn dillad sy'n gysylltiedig â Ffrainc a threuliwyd y dydd yn trafod traddodiadau'r wlad a chanu caneuon Ffrengig. Roedd hyd yn oed y cinio o ‘Gyw Iâr Chasseur’ a ‘Sables’ (bisgedi Ffrengig) yn cyd-fynd â thema'r dydd! Diolch i Anti Marian ac Anti Eleri am y wledd.

Ffair Haf

Cofiwch am Ffair Haf yr ysgol sy'n cael ei chynnal yn yr ysgol ar Fehefin 27ain am 6 o'r gloch. Dewch yn llu i'n cefnogi.

Disgyblion Meithrin Newydd

Fe glywsom si fod rhai o'r plantos bach sy'n cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi yn ysu am gael gwisgo eu gwisg ysgol newydd yn barod! Yn ffodus iddynt hwy ni fydd rhaid iddynt aros tan fis Medi i gael blas ar fod yn ddisgyblion dosbarth ‘Llafar’. Bydd cyfle iddynt dreulio bore yn eu dosbarth newydd (9:15am i 11:15am) ar Orffennaf 4ydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu i gyd.

Ysgol Rhiwlas

Croeso

Croeso i Hallie atom sydd wedi symud yma o Coventry. Mae ganddi gysylltiadau teuluol hefo Dyffryn Ogwen a braf yw clywed rhywfaint o Gymraeg ganddi mor fuan ar ôl symud. Dal ati Hallie, da iawn chdi!

Tawelwch noddedig

Oes 'na bobl? Oes, siŵr iawn! Mae'n siŵr fod yr ymwelwyr a ddigwyddodd alw un bore dydd Gwener wedi cael andros o sioc yn clywed distawrwydd llethol acw! Roedd Mr Davies wedi gosod her i'r plant i weithio a chwarae heb smic am y bore er mwyn casglu arian at yr ysgol. Diolch i'r rhieni a'n cyfeillion ym mhentref Rhiwlas am noddi mor hael ac am fod mor groesawgar wrth i'r plant alw heibio'r drysau. Braf oedd clywed nôl yn yr ysgol fod y plant yn gwrtais ac yn siarad Cymraeg mor ddel. Rhown wybod faint gasglwyd y mis nesaf.



Rhyd Ddu

Cafwyd tywydd bendigedig pan aeth blynyddoedd 4-6 i Ryd Ddu yn ddiweddar. Aethant i Gwm Tregalan ar lethrau'r Wyddfa a dysgu am hanes y Brenin Arthur cyn dychwelyd i'r ganolfan am sesiynau hwyliog i hybu gwaith tîm – roedd pawb wrth eu bodd er bod nifer yn wlyb diferol ar ôl chwarae gêm cludo dŵr. Roedd pawb yn haeddu'r cyri blasus y noson honno! Bu plant adran y Babanod yn gwneud gwaith mapio o amgylch yr ysgol gan ddefnyddio'r i-pads i ddarllen negeseuon cudd tra bod y plant mawr yn anturio yn Rhyd Ddu!

Gwasanaeth hefo Trystan

Diolch i Mr Jôb am drefnu gwasanaeth yn yr ysgol yn ddiweddar. Braf oedd cael cwmni Trystan a oedd wedi hedfan o Gaerdydd y bore hwnnw! Clywodd y plant am stori Sacheus a bod Iesu yn ffrind i bawb.

PC Thomas

Daeth PC Thomas atom eto'n ddiweddar gyda Tarian y Ddraig. Diolch iddo am ei sesiwn am yr hyn sy'n gywir ac anghywir a phwysigrwydd ymddygiad priodol. Trafodwyd ymddygiad a phwysigrwydd gwneud dewisiadau da yn hytrach na rhai gwael gyda'r plant hŷn hefyd.

Gwasanaeth Jenny

Y Pentecost a nerth yr ysbryd glân oedd testun gwasanaeth Jenny o Eglwys Cedol pan ddaeth atom i gynnal gwasanaeth. Daeth â theclynnau trydanol efo hi i helpu'r plant ddeall fod angen pob math o bŵer arnom. Diolch Jenny!

Garddwest Eglwys Cedol

Mae'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer Garddwest Eglwys Cedol. Mae plant adran y Babanod wedi bod yn gwneud collage unigol yn seiliedig ar eu hoff bryd o fwyd tra bod plant yr adran Iau wedi dysgu pwythau o wahanol fathau ac wedi gwneud baneri digon o sioe. Diolch i bawb yn Eglwys Cedol am ein cynnwys yn y dathlu eto eleni.

Llanc y Llechi



Llongyfarchiadau fil i Megan Rhys Williams (Bl.6) a Gwen Rhys Williams (Bl.4) (chwith) am eu llwyddiant yn Llanberis yn diweddar. Bu'r ddwy yn rhedeg yn y gystadleuaeth ar gyfer y plant – da iawn chi!

Amgueddfa Lechi

Cafodd blynyddoedd 5 a 6 gyfle i fynd i'r amgueddfa lechi am y dydd i gymryd rhan mewn gweithdy creu hysbyseb ffilm gyda Filmclub Cymru ar yr arddangosfa torri llechi sydd yn digwydd yno.

Ysgol Pen-y-bryn

Ymwelwyr pwysig

Mae'r ysgol wedi bod yn brysur dros ben yn croesawu llawer iawn o ymwelwyr yn ddiweddar. Daeth Mrs Brenda Wyn Jones a Mr Arwyn Oliver i siarad gyda'r plant am eu profiadau o fyw yn Nyffryn Ogwen a phwysigrwydd dathlu'r ffaith ein bod yn Gymry. Hoffem ddiolch o galon i'r ddau ac edrychwn ymlaen at eich gweld eto. Cafwyd ymweliad hefyd gan blant a staff o Ysgol Sketty, Abertawe a oedd yn awyddus i ddysgu am ein grwpiau plant a sut roedd 'Llais y Plentyn' yn cael ei weithredu mor dda yn yr ysgol. Daeth Mr Brett Pugh, sef Pen Swyddog Safonau'r Cynulliad, i'n gweld hefyd er mwyn gweld ein gwaith gyda rhifedd a daeth Mr Alun Morgan o Estyn i'n gweld i ddysgu am Lais y Plentyn ac yn benodol am y Grŵp Effeithiolrwydd, Plant Pesda. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am ddod i'n gweld!

Rygbi

Daeth Ysgol Pen-y-bryn ar y brig am y pedwerydd tro'n olynol mewn cystadleuaeth rygbi tag yng nghlwb rygbi Bethesda. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm buddugol. Edrychwn ymlaen at weld rhai o'r tîm yn serennu yn y dyfodol.

Gala Nofio

Ar fore Iau, Mai y 9fed, bu'r tîm nofio'n cystadlu yng Ngala Nofio Ysgolion Cynradd Bangor/Ogwen. Aelodau'r tîm oedd Ella White, Catherine Roberts, Luned Roberts, Ela Oliver, Rory White, Evan Ward, Jack Hughes, Cai Rees a Jac Oliver. Bu cystadlu brwd a gwelwyd ymdrech fawr gan bawb. Daeth Ella White yn 1af yn ras Dull Rhydd Blwyddyn 3, Rory yn 3ydd yn Null Rhydd Blwyddyn 4, Catherine yn 2ail yn y Dull Rhydd i enethod Blwyddyn 4 a Cai yn 3ydd yn y ras Dull Broga i Flwyddyn 6. Llongyfarchiadau mawr i bob un o'r tîm.

P'nawn Hwyl

Cafwyd p'nawn hynod lwyddiannus ar Fai 17eg er mwyn casglu arian tuag at daith y côr i Eisteddfod yr Urdd. Casglwyd dros £300 drwy werthu cacennau, bisgedi, da-das a diodydd a chydag amrywiaeth o weithgareddau. Diolch o galon i chi oll am y cyfraniadau, a diolch arbennig i Miss Caryl Griffith am yr holl waith trefnu.

Amgueddfa Lechi Llanberis



Aeth blwyddyn 6 i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Prif bwrpas y daith oedd cael gweld sut roedd ffordd o fyw'r chwarelwyr a'u teuluoedd wedi newid dros y blynnyddoedd. Diddorol iawn oedd gweld y tai yn eu cyflwr gwreiddiol. Diolch i Elen, y Swyddog Addysg, am ein tywys.

Llanystumdwy



Dydd Iau Mai 23ain aeth dosbarth Tryfan i Amgueddfa David Lloyd George yn Llanystumdwy i gael profiad o Oes Victoria. Cafodd pawb wisgo fel plant o'r

cyfnod. Roedd yn ddiwrnod prysur iawn. Aeth pawb i'r ysgol i gael gwers. Roedd rhaid gwneud gwaith ar lechen ac wrth gwrs siarad Saesneg. Druan o Elin Lewis a Caitlin yn gorfod gwisgo'r Welsh Not am siarad Cymraeg. Roedd Albie a Nai wedi actio'n wych fel plant drwg ac wedi cael y gansen! Yna aeth pawb i gartref plentynod David Lloyd George sef bwthyn Highgate. Roedd yn wych cael gweld yr holl hen ddodrefn a dychmygu sut roedd y teulu'n byw yno heb drydan. Diolch Mr Dilwyn Williams a Mrs Gwenda Williams am ddiwrnod llawn profiadau gwych.

Ffilmio

Bu cwmni teledu Tinopolis yma yn ffilmio rhai o actorion yr ysgol ar gyfer DVD addysgol i helpu plant gyda Chymraeg yn ail-iaith iddynt. Roedd y plant i gyd yn wych ac edrychwn ymlaen at weld y DVD!!

Ymddiheurwn am beidio â chynnwys newyddion Ysgol Pen-y-bryn yn Llais mis Mai.

Gosod y seiliau i lwyddiant y Penrhyn


Mae Catrin Wager yn hanesydd sydd wedi treulio llawer o amser yn pori drwy archifau teulu Castell y Penrhyn. Yma mae'n sôn am lythyr arbennig sy'n trafod y syniad arosol o osod rheilffordd rhwng y Chwarel ym Methesda a phorthladd Abercegin.



Catrin Wager

Yn ystod 2012 cefais y fraint o gatalogio canran o gasgliad archifol teulu'r Pennant, gynt o Gastell Penrhyn, sydd yn archif Prifysgol Bangor. Wedi byw ym Methesda ers deg mlynedd, a gweithio yng Nghastell Penrhyn ers chwech, roeddwn yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd hanesyddol y casgliad, ac roedd y profiad o fod ymysg y cyntaf i ddechrau dadansoddi a dallt y teulu dadleuol hwn yn wefreiddiol.

Hoffwn dynnu eich sylw at un o'r dogfennau diddorol cyntaf i mi ddod ar ei thraws: llythyr yn dyddio o 1793 gan ŵr o'r enw William Jessop. Peiriannydd o fri oedd Jessop, yn enwog am ei gamlesi (dyluniodd y Grand Canal of Ireland a'r West India Docks yn Llundain). Roedd wedi cael ei benodi gan Richard Pennant i wneud arolwg o'r ardal gyda'r syniad o adeiladu camlas rhwng y chwarel a phorthladd Abercegin. Ryw ddeg mlynedd ynghynt, sefydlodd Richard Pennant Chwarel y Penrhyn, gan ddwyn i ben yr arfer o unigolion yn tyllu am lechi. Problem fawr i'r chwareli cynnar oedd cludo'r llechi o'r chwarel i'r porthladd i'w hallforio, gan fod llechi mor drwm i'w certio gan ceffyl ar hyd lonydd culion a garw.



Barn Jessop oedd y byddai camlas, oherwydd rhediad y tir, yn fwy 'costus na phroffidiol' ac awgrymodd yn lle hynny y dylid adeiladu ffordd rêls gyda cheffylau i dynnu'r certiau. Agorwyd y rheilffordd yn 1801 ar gost o £5,000 a gellid dadlau mai'r buddsoddiad hwn oedd yn gyfrifol am lwyddiant ysgubol Chwarel y Penrhyn. Bellach gallai un ceffyl symud 6 thunnell o lechi ar y tro, gan oresgyn problemau megis certiau'n methu mynd heibio'i gilydd ar y lonydd culion, neu'n suddo i'r mwd mewn tywydd gwael. Amcangyfrif Jessop oedd y byddai'r rheilffordd yn arbed oddeutu £1,500 y flwyddyn ar y gost o gludo llechi. Ar ben hynny, gellid symud llawer mwy o lechi nag o'r blaen, gan alluogi'r chwarel i dderbyn a chyflawni llawer mwy o archebion, ac wrth gwrs i wneud elw aruthrol. A dyna osod y Penrhyn ar y blaen i'r chwareli eraill - fe gymerodd rhyw ugain mlynedd i eraill, megis Dinorwig, fabwysiadu'r syniad arloesol hwn.



Y mis nesaf bydd Catrin yn sôn am lythyr arall o'r archif, sy'n dangos nad oedd holl syniadau busnes Richard Pennant yn rhai llwyddiannus ac sy'n mynd beth o'r ffordd i esbonio pam y bu farw mewn cymaint o ddyled – ffaith nad ydy haneswyr hyd yn hyn wedi gwneud yn fawr ohono.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10.00am - 2.00pm

13 Gorffennaf
(yn y Clwb Rygbi, Bethesda)

10 Awst
(yn y Clwb Rygbi, Bethesda)

14 Medi
(yn y Clwb Rygbi, Bethesda)

Bwydydd a Chrefftai
www.marchnadogwen.co.uk

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI



22 Mehefin: Eisteddfod Dyffryn Ogwen
29 Mehefin: Eglwys Glanogwen
06 Gorffennaf: Y Blaid Lafur
13 Gorffennaf: Cronfa Tracey Smith
20 Gorffennaf: Ysgol Sul, Jerusalem.

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd Arddangosfa Blodau gan 'The Flower Ladies'

Merched drwy'r Oesoedd
yn Theatr Addysg, Ysbyty Gwynedd,
15 Gorffennaf am 7.30 yr hwyr.

Tocyn £10.00 yn cynnwys
lluniaeth ysgafn a raffl

Tocynnau ar gael gan
Mrs Glenys Morgan, Maes Coetmor;
Mrs Wendy Jones, Bron Arfon;
Mr Dewi Morgan, Park Villa;
Mr Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas.

Yr elw at waith y Cyfeillion.

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Mehefin 25
Gorffennaf 9, 23 a 30
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

Te Mefus yn Ysgoldy Maes y Groes, Talybont

Sadwrn, 29 Mehefin am 3.00 o'r gloch

Mynediad £2.50

Te Mefus yn Festri Bethlehem, Talybont

Nos Fercher, 10 Gorffennaf
am 7.00 o'r gloch

Mynediad £2.00

Elw at y Capel

Garddwest yng ngardd Ficerdy Pentir

Sadwrn, 13 Gorffennaf
1.00 o'r gloch i 4.00

Mynediad £1.50

PESDA ROC 30
CLWB RYGBI BETHESDA
GORFFENNAF 5ed, 2013

MAFFIA MR HUWS
RADIO RHYDD
CEFFYLAU LLIWGAR
MERCHED Y WAWR
MARTIN BEATTIE A'R BAND

DDIM YN CAEL EI FFYNDIO GAN UFAK O NEB

CYCHWYN AM 7PM £6 O FLAEN LLAW :: £8 AR Y DRWS
twitter @pocococ :: facebook.com/pocococ13 :: pocococ@live.co.uk

TAITH GERDDED NODDEDIG

Unwaith eto eleni mae Ann a Raymond Tugwell yn trefnu Taith Gerdded. Dydd Sadwrn, 20 Gorffennaf yw'r dyddiad a bydd yr arian eleni yn mynd at CLIC (Lewcemia mewn plant a phobl ifanc) ac at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Cewch fwy o wybodaeth trwy gysylltu ag Ann a Raymond ar 01248 601077.

I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â
Neville Hughes
☎ 600853

Casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol 2013

Y swm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd **£4876.88**.

Mae'n diolch yn fawr i'r holl gasglyddion ac i drigolion y Dyffryn am eu haelioni ac i'r rhai hynny wnaeth lenwi'r ffurflen fydd yn galluogi Cymorth Cristnogol i adennill y dreth incwm ar eu cyfraniad.

Diolch i bawb am ymddiried yn Cymorth Cristnogol i leddfu anghenion y rhai sy'n llai ffodus na ni. Diolch hefyd i Adrian Williams am archwilio'r cyfrifon.

Mae'r swm uchod yn cynnwys **£330.75**, sef elw'r Bore Coffi yn Neuadd Ogwen, casgliad o **£94.05** yn oedfa Cymorth Cristnogol yn Eglwys Glanogwen, rhoddion o **£50** yr un gan Oedfa Deulu Eglwys Shiloh, Tregarth, Eglwys Amana, Mynydd Llandygai, ac Eglwys Bethania, Bethesda, **£25** gan Eglwys Llandegai a **£6** gan Eglwys Bethel, Caellwngrydd.

Dyma fanylion y casgliadau o dŷ i dŷ at Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'r swm rhwng cromfachau yn nodi faint gasglwyd yn 2012. Daeth **£4271.08** (£4065.93) i law mewn **1247** (1350) o amlenni. Ar gyfartaledd roedd **£3.43** (£3.01) ym mhob amlen. Mae'r casgliadau wedi eu crynhoi fesul ardal gan nodi enwau'r rhai fu'n casglu.

Bethesda £989.47 (£1165.21)

Trefnwyr: Rhiannon Efans a Walter Williams.

Casglyddion: Lester Bath, Elfed Bullock, Ceri Dart, Rhiannon Efans, Gwenno Evans, Angharad Hughes, Ian Hughes, Griff Morris, Barbara Owen, Beti Rhys, Heulwen Roberts, Rhian Roberts, Joan Sturrs, Medi Williams, Nancy Williams, Sioned Williams a Walter Williams.

Braichmelyn £165.12 (£198.19)

Casglydd: Elna Jones.

Carneddi £377.91 (£337.45)

Trefnydd: Ieuan Wyn.

Casglyddion: Janet Buckle, Pat Corns, Valmai Davies, Alwen Hughes, Anwen Hughes, Beti Roberts, Karen Williams ac Olwen Williams.

Gerlan £238.55 (£249.73)

Trefnydd: Neville Hughes.

Casglyddion: Gwenda Bowen, Davina Evans, Neville Hughes, Bethan Jones, Caren Roberts, Ann Williams a Sandra Williams.

Mynydd Llandygai, Bryn Eglwys, Cilgeraint a Tanysgafell £302.04 (£167.81)

Casglyddion: Avril Alexander, Alex Ball, Iona Rhys ac Elin Sanderson..

Rachub a Llanllechid £545.22 (£385.44)

Trefnydd: Paul Rowlinson.

Casglyddion: Siân Esmor, Carys a Martin Hebenstreit, Rob a Lesley Hughes, Gwenda Jones, Wendy Jones, Sharon Morgan, Iona Robertson, Paul a Ffion Rowlinson, Megan Tomos a Helen Williams.

Rhiwlas £393.38 (£426.38)

Trefnydd: John Huw Evans.

Casglyddion: Iona Jones, Steffan Job, Dyddgu Pritchard Owens, Dilys Parry ac Alison Roberts.

Talybont a Llandygai £592.68 (£506.50)

Trefnydd: Neville Hughes.

Casglyddion: Catrin Hobson, Jean Hughes, Barbara Jones a Nerys Jones.

Tregarth £666.71 (£629.22)

Trefnydd: Eirwen Williams.

Casglyddion: Elizabeth Buckley, Bethan Crowe ac Esme, Gwenda Davies, Catrin Doyle ac Elin, Beryl Hughes, Hazel Hughes, Margaret Hughes, Einir W Jones, Dafydd Roberts, Carys Williams, Gwyneth Williams a Rosemary Williams.

Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Mae hi wedi bod yn fisoedd prysur iawn i Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen. Eleni oedd eu tro nhw i gynnal Rali flynyddol Ffermwyr ifanc Eryri. Cafodd hi ei chynnal ar Fferm Coed Hywel, lle cawsom ein croesawu gan Tudor a Olwen Jones. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn, gyda sawl clwb o'r mudiad yn cymryd rhan. Thema eleni oedd 'Y Celtiaid' felly roedd rhaid mynd yn ôl i'r hen ddyddiau i gymryd rhan yn y cystadlaethau. Dau o uchafbwyntiau'r dydd oedd y ras Siariot a'r tynnu rhaff.



Tynnwch Hogia!

Hoffem ddiolch i Arwel Edwards, Moduron Pandy, Richard Morris, Tan y Garth ac NFU Canolbarth Gwynedd am eu caredigrwydd ac am noddi'r diwrnod. Diolch i holl aelodau'r pwyllgor Rali a helpodd ar y diwrnod a gyda'r nos, a diolch i Tudor ac Olwen, Coed Hywel am ein croesawu i'r fferm. Roedd o'n ddiwrnod i'w gofio.




Y genod yn mynd drwy'u petha....



... a'r hogia ddim yn siŵr be i'w wneud o hynny.

Mi fydd y clwb yn cau am yr haf rŵan ac yn ail agor yn ôl ym mis Medi. Os oes gennych ddi-ddordeb ymaelodi gyda'r clwb cysylltwch â Llinos ar 07799 300141.

Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver



Taith 3: Godre Moel Faban

Rydyn ni'n cychwyn y mis hwn o faes parcio Plas Ffrancon. Ewch heibio i'r binau ail-gylchu, drwy'r bwlch yn y ffens gan gymryd llwybr "Cae Bones" i gyfeiriad Carneddi.

Cyrraedd llwybr Chwarel Pant Dreiniog a throï i'r chwith i gyfeiriad lôn Hen Barc.

Troi i'r chwith ger Meithrinfa Ogwen ac ymlaen i gyfeiriad Rachub. Ymhen rhyw 100 metr, troi i'r dde i fyny'r llwybr heibio fferm Cae Cymro.

Ewch trwy giât ger y fferm a dringo'n raddol i'r chwith. Rydych yn sicr o ganfod y llwybr er nad yw'n glir ar y cychwyn.

Anelwch am y giât gyda pholyn gwyn arni. Wedi gadael y giât, cerdded ar draws yr hen domen chwarel i fyny am y giât uchaf sy'n rhoi mynedfa i'r mynydd.

O'r fan hyn (lle mae cronfa ddŵr wedi ei chladdu ar y dde i chwi), cerddwch ar y gwastad ac anelwch am waelod yr inclein sy'n codi uwchben Rachub.

Mae'r rhan yma'n eithaf serth am ychydig. Dringwch i fyny'r inlein a thua hanner ffordd byddwch yn cyrraedd llwybr sy'n amgylchynu Moel Faban. Mae lle da yn fan hyn i gael eich gwynt atoch a mwynhau'r olygfa fendigedig.

Troi i'r chwith a cherdded i gyfeiriad Chwarel Bryn.

Dilyn y llwybr sy'n mynd â chi heibio gwaelod Bwlch Molchi a chanlyn y wal fynydd nes bron cyrraedd y chwarel.

Ewch drwy'r giât a cherdded drwy'r chwarel nes cyrraedd ffordd.
Troi i'r chwith a cherdded i lawr y ffordd heibio'r ffordd ar y dde
sy'n arwain i Fferm Bryn.

Ewch ymlaen i lawr y ffordd nes cyrraedd arwyddbost llwybr
cyhoeddus ar y chwith. Aiff y llwybr yma â chi i lawr i Lanllechid.
Cymerwch y llwybr hwn.

Cyrraedd Llanllechid a throi i'r chwith ar ffordd Llanllechid i gyfeiriad Rachub. Troi i'r dde yn sgwâr Rachub ac ymhen 100 metr, troi i'r chwith ar hyd llwybr Lôn Bach Odro.

Fe aiff y llwybr â chi heibio Ysgol Llanllechid yn ôl at Blas Ffrancon.

Pellter: ychydig dros 3 milltir

Amser: tua 2 awr

Offer: Esgidiau addas (rhannau mwdlyd)

Math o daith: Ambell i lecyn serth.